# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD MAWRTH, 4YDD CHWEFROR, 2025**

Lleoliad

**Yn Rhithiol Drwy Zoom**
**(Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 27 Ionawr 2025)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Elin Walker Jones
Meryl Roberts
Paul John Rowlinson

## Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Angela Russell
John Pughe Roberts

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor –

### Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol

| | |
|---|---|
| Natham Abrams | Judaism |
| Mr Mohamed Arabi | Islam |
| Eurfryn Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Bethan Davies Jones | Union of Welsh Independents |
| Edward Parri-Jones | Dyneiddiwr |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Dr Sibani Roy | Hinduism |
| Rev. Nick Sissons | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Patrycja Bielak Smith | Bwdhaeth |
| Gwawr Maelor Williams | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Naomi Wood | Yr Eglwys yng Nghymru |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Heledd Jones | NEU |
| Emma Roberts | UCAC |
| Vacant Seat - NAHT | NAHT |

### Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Eleri Moss | Pennaeth Uwchradd |

# R H A G L E N

**1. <u>GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL</u>**

**2. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. <u>DATGAN BUDDIANT PERSONOL</u>**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. <u>MATERION BRYS</u>**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

**5. <u>COFNODION</u>** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwna gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2024 fel rhai cywir.

**6. <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2023/24</u>** 9 - 18

I gysidro Adroddiad blynyddol CYSAG Gwynedd 2023/24.

**7. <u>DIWEDDARIAD AR ADRODDIAD DDARPARIAETH ADDYSGU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG MEWN YSGOLION YNG NGHYMRU</u>** 19 - 65

I dderbyn diweddariad ar yr adroddiad gan Dr Gareth Evans-Jones.

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL

## 19/11/2024

**Presenoldeb :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, Meryl Roberts, Anne Lloyd-Jones, Elin Walker Jones, a Paul Rowlinson.

**Eraill:**

**Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol :** Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru).

**Athrawon :** Miriam A. Amlyn (NAS/UWT).

**Swyddogion** : Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Rhodri Jones a Jasmine Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**Aelodau Cyfetholedig**: Eleri Moss (Pennaethiaid Uwchradd).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Eitem 6**: Klavdja Erzen (Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru).

### 1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi o fyfyrdod gan y Cynghorydd Elin Walker Jones.

### 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorwyr John Pughe Roberts.
- Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg)
- Nick Sissons (Yr Eglwys Fethodistaidd)
- Bethan Davies Jones (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg)
- Naomi Wood (Yr Eglwys yng Nghymru)

### 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 4. MATERION BRYS

Nodwyd bod llythyr wedi cael ei dderbyn gan Phil Lord, yn cynnig cefnogaeth arbenigol i'r Pwyllgor. Cytunwyd y byddai e-bost yn cael ei anfon at aelodau'r Pwyllgor i weld pwy fyddai'n mynychu cyfarfod gyda Phil Lord i benderfynu a dderbynir ei gynnig o gefnogaeth arbenigol ai peidio.

### 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 02 Gorffenaf 2024 fel rhai cywir.

**6. CYMDEITHAS HANES IDDEWIG DE CYMRU**

Cyflwynwyd yr eitem gan Klavdja Erzen (Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru) gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod y CHIDC (Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru) wedi'i sefydlu ers mis Tachwedd 2017 gyda'r nod o gadw a rhannu treftadaeth Iddewig Cymru â'r cyhoedd ehangach gan fynd i'r afael â gwrth-semitiaeth, gwadu'r Holocost a chamwybodaeth. Esboniwyd hefyd bod y gwaith y maent yn ei wneud yn amrywiol gan gynnwys digido a chyhoeddi deunyddiau, cynnal ymchwil, sgyrsiau, llwybrau treftadaeth ddigidol a chreu adnoddau addysgol.

Nodwyd bod ugain o adnoddau addysgol ar gyfer yr Holocost hyd yma. Crewyd yr adnoddau hyn mewn partneriaeth â'r Ganolfan ar gyfer Symudiad Pobl, Prifysgol Aberystwyth. Esboniwyd bod yr adnoddau'n ddwyieithog ac yn cyd-fynd â Cwricwlwm i Gymru. Cadarnhawyd eu bod yn addas ar gyfer dysgwyr rhwng 9–14 oed, ac yn rhad ac am ddim. Nodwyd hefyd bod yr adnoddau'n berthnasol i'r ardal leol ac yn cwmpasu pedwar maes gwahanol: y dyniaethau, celfyddydau, iechyd a lles, a ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Pwysleisiwyd bod yr holl adnoddau ar gael ar wefan Casgliad y Werin Cymru/People's Collection Wales a hefyd ar safle Hwb.

Nodwyd bod y Gymdeithas wedi datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ac ysgolion er mwyn rhannu eu hadnoddau. Esboniwyd bod yr hyfforddiant oddeutu 30–45 munud o hyd, y gellir eu cynnal ar-lein neu wyneb yn wyneb ac eu bod wedi'u teilwra i anghenion athrawon ac ysgolion yn rhad ac am ddim.

Diolchwyd i Klavdja am ei chyflwyniad, gan ei llongyfarch hi a'r Gymdeithas ar ddatblygiad adnoddau mor werthfawr. Croesawyd yn arbennig y ffocws ar gysylltiad â hanes lleol.

**7. DIWEDDARIAD AR Y GWAITH O DDATBLYGU Y CANLLAWIAU ADDOLI AR Y CYD**

Nodwyd mai ychydig o ymatebion sydd wedi'u derbyn i'r llythyr a anfonwyd ym mis Mehefin, a chan hynny anfonwyd llythyr atgoffa, gan ddisgwyl derbyn yr ymatebion erbyn 11 Ionawr 2025.

**8. ADRODDIAD AR DDARPARIAETH ADDYSGU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG MEWN YSGOLION YNG NGHYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2024 gan Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru (Prifysgol Bangor), gan y Cynghorydd Menna Baines gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Nodwyd bod awduron yr adroddiad wedi anfon holiaduron i ysgolion uwchradd a chynradd ac wedi derbyn 58 o ymatebion. Nodwyd bod athrawon yn gyffredinol yn cefnogi'r newid o addysg grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Esboniwyd bod cwynion am ddiffyg adnoddau yn Gymraeg, yn enwedig, gyda dim ond un gwerslyfr Saesneg ar gael yn swyddogol ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd nad oes digon o hyfforddiant, a bod hyfforddiant yn anghyson o sir i sir. Teimlwyd bod pwnc Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei iselhau ac nad yw'n cael yr un amser â phynciau eraill. Nodwyd bod y ffocws yn parhau'n gyfyng er gwaethaf newid teitl y pwnc, a bod crefyddau traddodiadol yn parhau i gael y ffocws mwyaf. Nodwyd bod awduron yr adroddiad yn galw am ddatrysiad brys.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn: -

Nodwyd bod yr adroddiad yn ategu'r hyn a glywir gan nifer o athrawon. Esboniwyd bod y gwerslyfr yn cyflwyno'r crefyddau ar wahân, sy'n groes i sut mae ysgolion wedi dewis eu dysgu, felly mae'n anodd ei ddefnyddio.

Adroddwyd bod y sefyllfa'n ddamniol, gyda newidiadau mawr yn angenrheidiol. Mynegwyd pryder bod dim ond 17 o ysgolion yn cadarnhau bod eu hysgolion yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, sydd felly'n awgrymu bod llawer o ysgolion yn torri'r gyfraith. Nodwyd bod angen i hyn ddod i sylw'r gymdeithas CYSAG Cymru. Nodwyd bod angen i'r adran yng Ngwynedd edrych i mewn i hyn ac ymateb gyda chynllun i unioni'r sefyllfa.

Nodwyd ymhellach ynglŷn â'r gwerslyfr nad yw'n addas i'r diben ac nad yw'n Gymraeg. Nodwyd hefyd nad oes cadarnhad o'r bwriad i'w gyfieithu. Cynigwyd anfon llythyr at CBAC ynghylch y gwerslyfr, a chopi ohono at y Gweinidog Addysg.

**PENDERFYNWYD:**

- **Gofyn i'r Adran Addysg edrych ymhellach ar yr hyn a godwyd yn yr adroddiad o fewn Gwynedd.**
- **Gofyn i Gymdeithas CYSAG Cymru ystyried yr adroddiad ar lefel cenedlaethol.**
- **I'r Cadeirydd anfon llythyr at CBAC ac anfon copi at Weinidog Addysg Cymru ynghylch cyfieithu'r gwerslyfr Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.**
- **I'r Cadeirydd holi Gareth Evans-Jones am unrhyw ddiweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.**

## 9. MANYLEB DRAFFT TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL MEDI 2025

Cyflwynwyd diweddariad ar y drafft gan Miriam A. Amlyn (NAS/UWT) gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Pryderwyd nad oedd y gwerslyfrau'n cael eu rhyddhau'n brydlon ac nad oeddynt yn ddwyieithog. Nodwyd y byddai rhwng 120 a 140 awr o ddysgu dan arweiniad yn angenrheidiol i'w cyflwyno, ond dim ond dwy awr yr wythnos, sef 76 awr y flwyddyn, a ddarperir. Mynegwyd pryder y byddai hyn yn arwain at anfantais i ddisgyblion wrth baratoi ar gyfer yr arholiad.

Nodwyd y byddai dau ddarn o waith cwrs yn cael eu cyflwyno ynghyd â'r ddau arholiad presennol. Pwysleisiwyd na fyddai'n bosibl newid yr amseroedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cwblhau gwaith cwrs, a fyddai'n lleihau'r amser a roddir i addysgu'r pwnc a pharatoi ar gyfer yr arholiad.

O ran y cynnwys, nodwyd bod yr ymdriniaeth â'r crefyddau yn eithaf tebyg i fel yr oedd o'r blaen, ond gyda mwy o fanylder mewn rhai meysydd. Cynhwyswyd mwy o gynnwys ar gredoau anghrefyddol, hawliau dynol, a chynnwys newydd, nad oedd yn yr hen werslyfrau. Er gwaethaf hyn, nodwyd bod y cynnwys yn dda, ond efallai ei fod yn eithaf trwm o ran y manylder ychwanegol mewn rhai meysydd. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd rhyddhau'r gwerslyfr yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd.

Mynegwyd pryder pellach ynghylch cyflwyno gwaith cwrs, yn enwedig mewn cysylltiad â AI a'i ddefnydd posibl gan ddisgyblion i dwyllo. Nodwyd bod y cyfrifoldeb dros atal twyll o'r fath yn disgyn ar yr athro, ond er hynny, mae'n anodd rheoli gweithgareddau'r dosbarth i atal twyll o'r fath.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:

Nodwyd bod yr amser a neilltuwyd i bynciau dewis yn amrywio o ysgol i ysgol, fel yn Ysgol y Moelwyn, lle ceir tair awr yr wythnos. Esboniwyd bod y neilltuad amser yn cael ei benderfynu gan y pennaeth. Nodwyd hefyd y bu'r ysgol hon yn dechrau dysgu'r pynciau dewisol ym mis Chwefror yn y gorffennol, gan ganiatáu mwy o amser i ddysgu a lleihau'r problemau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad. Fodd bynnag, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gwahardd trefniant o'r fath eleni, sydd yn peri pryder o ran cynnal ymddygiad a diddordeb, ynghyd â cholled tymor o gyswllt.

Mynegwyd bod y gwaith cwrs yn cael ei groesawu gan yr athrawes yn Ysgol y Moelwyn, gan ei bod yn teimlo bod y pwnc wedi bod dan anfantais yn y gorffennol mewn cymhariaeth â phynciau eraill sydd ag elfen gwaith cwrs.

Mewn perthynas â'r pryder o ddefnyddio AI i dwyllo, awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol holi'r disgyblion i weld a ydyn nhw'n deall yr hyn maent wedi'i ysgrifennu er mwyn cadarnhau mai eu heiddo nhw eu hunain yw'r gwaith mewn gwrionedd. Fodd bynnag, esboniwyd y byddai hyn yn cymryd amser i'w wneud ac efallai y byddai'n creu anghydfod rhwng y disgybl a'r staff.

Holwyd sut y mae'r ymrwymiad amser o'r cynllun cyfredol a'r cynllun blaenorol yn cymharu. Mewn ymateb, esboniwyd nad oedd yr ateb wrth law, ond roedd yn sicr y byddai'n fwy ymarferol gyda chyflwyno gwaith cwrs.

**PENDERFYNWYD:**

- **I'r Cadeirydd anfon llythyr at gynhyrchydd y llyfr Cyfnod Allweddol 3 ynghylch yr adnoddau newydd.**
- **I'r Cadeirydd gysylltu â Myrddin ap Dafydd (Gwasg Carreg Gwalch) o ran y syniad o gynhyrchu gwerslyfr ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.**

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 y.p. a daeth i ben am 5:00 y.p.

___________________________________

**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Gwynedd
# Medi 2023 – Awst 2024

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Gwern ap Rhisiart

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cynghorydd Menna Baines

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2023 - 2024
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.5 Arweiniad CYSAG Gwynedd i aelodau sy’n mynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

**Y Cynghorydd Menna Baines**
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2023/2024**

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Roedd CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

Yn sgil dyfodiad Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 a sefydlu'r Gwricwlwm i Gymru, cynhaliwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Gwynedd ar y 15fed o Chwefror 2022. Penderfyniad unfrydol y Gynhadledd oedd argymell i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel ei fod yn weithredol o Fedi 2022.

Ar y 13 o Fedi 2022 cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd argymhelliad y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a mabwysiadwyd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel Maes Llafur Cytunedig ar gyfer ysgolion Gwynedd.

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Yn y gorffennol, bu CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol.
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 9 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Roedd clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog adnoddau addysg cynorthwyol gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnwyd i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fyddai ESTYN yn arolygu'r ysgol. Oherwydd sefyllfa COVID-19 fe ddaeth ymweliadau ESTYN i ben yn ystod Mawrth 2020. O Fedi 2021 hyd Awst 2022 ni fu ESTYN yn ymgymryd â rhaglen arolygu lawn, rhai ysgolion yn unig a wirfoddolodd i beilota trefniadau arolygu diwygiedig. Ail-gychwynodd rhaglen arolygu ESTYN ar ei newydd wedd yn Medi 2023 . Ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd ddarparu hunan-arfarniadau yn sgil y newidiadau a wnaed.

#### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Ni thrafodwyd asesiadau athrawon disgyblion CA3 na chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5 yn ystod cyfarfodydd 2023-2024.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mair Huws, Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol Gwynedd yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac i Gyngor Gwynedd.

Hyd at Ebrill 2018, roedd Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAG Gwynedd ac i gynrychioli CYSAG Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Ym mis Mawrth 2018, hysbyswyd clerc CYSAG Gwynedd na fyddai GwE yn cefnogi CYSAG Gwynedd bellach.

Bu i ysgolion cynradd weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn statudol o Fedi 2022 a dechreuodd rhai ysgolion Uwchradd ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yr un pryd gyda eraill yn oedi hyd Medi 2023. Mae addysg felly yn parhau i fod ynghanol cyfnod o newid mawr, a wnaeth hi'n amhosibl monitro safonau o fewn Addysg grefyddol yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn trafodaeth gyda GwE cafwyd cytundeb y byddai Bethan James, ymgynghorydd gyda GwE yn ail-gychwyn cefnogi CYSAG Gwynedd o dymor yr Hydref 2023. Yn anffodus daeth y newyddion trist ar ddechrau 2024 am farwolaeth ddisymwth Bethan James cyn iddi fedru ymgymryd yn llawn â'r rôl.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod CYSAG Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad strategol priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel pwyllgor statudol.

## 2.5 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Llywodraeth Cymru

**Cwricwlwm i Gymru**

- Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.
- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.
- Bu gwaith ymgynghori cynhwysfawr ar y Canllawiau o fis Mawrth 2020 ymlaen ac fe fu Cymdeithas CYSAGauCymru yn ran annatod o'u creu. Ffrwyth llafur yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yw'r canllaw a gyhoeddwyd bellach gan Lywodraeth Cymru.
- Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 y Cwricwlwm i Gymru o dan y gyfraith, gan ddisodli'r cwricwlwm sylfaenol (sy'n cynnwys, er enghraifft, y cwricwla cenedlaethol a lleol a nodir yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002).
- Mae'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022 yn nodi pedwar diben y cwricwlwm o dan y gyfraith. Mae hefyd yn nodi elfennau mandadol (gan cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg fel un ohonynt) sy'n rhychwantu continwwm dysgu 3 i 16 oed.
- Daeth y Cwricwlwm i Gymru i rym mewn Ysgolion Cynradd ar y 1/09/2023 ac mae Ysgolion Uwchradd yn gweithio tuag at ei weithredu o Medi 2023 ymlaen (os nad ydynt yn ei weithredu eisoes)
- Mae'r *Canllawiau ar Grefydd,Gwerthoedd a Moeseg* ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 y Ddeddf, a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o fewn y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

## 2.6 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)

- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion ac athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau'r arolygiadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Ni dderbyniwyd unrhyw hunan arfarniad yn ystod 2023-2024 gan na ofynnwyd i unrhyw ysgol ei ddarparu.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.

# ADRAN 3: ATODIADAU

## 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

a) **Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,
- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

b) **Adolygwyd y Cyfansoddiad gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn Ebrill 2019 fel a ganlyn:**

- **Cristnogaeth a Chrefyddau eraill –** cadw yn 6. Cynnig gwahodd un cynrychiolydd o'r credoau Bwdaeth, Islam, Hindwaeth, Iddewiaeth, Siciaeth a'r Dyneiddwyr

- **Athrawon a Phenaethiaid -** cadw yn 5 cynrychiolydd o Undebau llafur athrawon

- **Aelodau Etholedig -** cadw yn 7

- **Cyfetholedig -** Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau

- 3 pleidlais sydd sef 1 i bob Grŵp, nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig

c) **Adolygwyd y cyfansoddiad ymhellach yn ystod Medi 2022 gan addasu'r grŵp athrawon fel a ganlyn:**

- Athrawon a Phenaethiaid – Cadw nifer y seddi ar 5

Dyrannu'r seddi fel a ganlyn:

3 sedd i'w rhannu rhwng yr Undebau Athrawon a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd (NAS/UWT; UCAC ; NEU; ASCL a'r NAHT – i'w benderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd)

1 sedd i'w llenwi gan y Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig (GYDCA)
1 sedd i'w llenwi gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2023-24

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Parch Nick Sissons |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Eurfryn Davies |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Gwawr Maelor Williams |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Naomi Wood |
| Undeb yr Annibynwyr | Bethan Davies Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | Eirian Bradley Roberts |
| Bwdaeth | Patrycja Bielak Smith |
| Dyneiddwyr | Edward Parri-Jones |
| Iddewiaeth | Nathan Abrams |
| Islam | Mr Mohamed Arabi |
| Hindw | Dr Sibani Roy |

**Cynrychiolwyr Athrawon**

| | |
|---|---|
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Emma Roberts (Ysgol Botwnnog) |
| Cymdeithas yr Ysgolfestri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| NEU Cymru | Mrs Heledd Owen (Ysgol Friars) |
| Grŵp Penaethiaid Uwchradd | Eleri Moss (Ysgol y Moelwyn) |
| Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig | *Disgwyl enwebiad* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Paul Rowlinson | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Meryl Roberts | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Menna Baines | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Jina Gwyrfai | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Elin Walker Jones | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Anne Lloyd Jones | Annibynnol |
| Cynghorydd John Pughe Roberts | Annibynnol |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gwern ap Rhisiart | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mair Huws | Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol |
| Rhodri Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2023-24

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2023– 2024, cyfarfu CYSAG Gwynedd 2 waith trwy gyfrwng Zoom:

21 Tachwedd 2023
2 Gorffennaf 2024

Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau, bu'n rhaid canslo cyfarfod y 6ed o Chwefror 2024.

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rhain yn y cofnodion ac yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 21 Tachwedd 2023**

- Cadarnhawyd fod y Pennaeth Addysg ar y pryd wedi bod mewn trafodaethau gyda GwE i adfer y gefnogaeth a chadarnhawyd y bydd Bethan James yn cefnogi o hyn ymlaen. Adroddwyd na fydd y gefnogaeth ar yr un lefel ag a oedd yn flaenorol, ond y bydd Bethan James yn mynychu cyfarfodydd CYSAG ac yn rhoi hanner diwrnod o gefnogaeth, ac fel man cychwyn y bydd yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

- Cafwyd adroddiad gan y Parchedig Nick Sissons ar y Canllawiau Addoli ar y Cyd presennol. Teimlai bod y canllawiau presennol wedi dyddio a bod angen Gwaith sylweddol arnynt. Serch hynny, awgrymodd nad oedd gwerth mewn mynd drwy'r ddogfen bresennol a'i haddasu gan fod materion ehangach angen sylw, yn enwedig yr angen i adolygu'r ddeddfwriaeth ar addoli ar y cyd. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd bod CYSAG Gwynedd yn ysgrifennu llythyr at CCYSAGauC a chyrff cenedlaethol yr holl eglwysi yng Nghymru i holi sut fyddai modd iddynt fod o gymorth i symud y mater yn ei flaen.

**b) Cyfarfod 2 Gorffennaf 2024**

- Ail-etholwyd y Cyng Menna Baines yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Meryl Roberts yn Is-gadeirydd.

- Cafwyd adroddiad gan Nia Elain Roberts, Swyddog Ymgysylltu Pererindodau Ysgolion Prosiect Llan. Adroddwyd bod y prosiect yn derbyn cefnogaeth Cronfa Efengylu'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer datblygu pererindod o fewn yr Esgobaeth a dysgu'r Gymraeg. Ymhelaethwyd bod y prosiect wedi cael ei ariannu am 7 mlynedd. Un o brif nodau y prosiect yw ysgogi athrawon i ddefnyddio'r thema 'pererindod' o fewn eu gwaith dosbarth yn ogystal â hyrwyddo hanes crefyddol a'r iaith Gymraeg. Pwysleisiwyd bod y prosiect yma ar gael i bob ysgol, nid dim ond ysgolion eglwys a byddai pecynnau gwersi, ymweliadau a chyflwyniadau ar gael i holl ysgolion.

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Mair Huws, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel clerc CYSAG
Rhodri Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sy'n gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

### 3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru

- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

**Darperir copi hefyd i:**

- Aelodau CYSAG Gwynedd

# Adroddiad ar ddarpariaeth addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn Ysgolion yng Nghymru (Ebrill 2024)

**Ymchwiliwyd Gan:**
Dr Joshua Andrews
Dr Gareth Evans-Jones
Ms Rachel Healand-Sloan
a'r Athro Lucy Huskinson

**Fersiwn hygyrch ar-lein: Mai 2024**

## CYD-DESTUN AC AMCANION

Prif genhadaeth Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru yw darparu arbenigedd academaidd a chefnogaeth addysgol am ddim yn y meysydd athroniaeth, crefydd a moeseg i athrawon o lefelau TGAU hyd at gyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gweithdai, sesiynau adolygu, a digwyddiadau DPP. Ers mis Hydref 2022, mae'r Ganolfan wedi derbyn llif cyson o adroddiadau ac adborth negyddol gan athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru ynghylch y modd y mae'r cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), wedi cael ei roi ar waith.

Gwelwyd yng Nghymru'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu a ddaeth i fodolaeth ym mis Medi 2022, yn yn ailenwi pwnc 'Addysg Grefyddol' (AG) i 'Crefydd, Gwerthoedd, a Moeseg' (CGM), gyda'r amod ei fod yn bwnc gorfodol i bob myfyriwr o 3 i 16 oed. Cafodd y pwnc newydd hwn ei integreiddio wedyn i Faes Addysgu a Dysgu y Dyniaethau.

Er mwyn adnabod yr agweddau a oedd yn peri pryder i'r athrawon a gysylltodd, a cheisio canfod atebion posibl, ymgymrodd Cyfarwyddwyr y Ganolfan, Dr Joshua Andrews, Dr Gareth Evans-Jones, a'r Athro Lucy Huskinson, a chynorthwy-ydd ymchwil, Ms Rachel Healand-Sloan, â phrosiect ymchwil ansoddol a meintiol drwy ddosbarthu holiaduron ymysg athrawon CGM ledled Cymru. Roedd yr ymatebion yn gwbl anhysbys ac yn ddienw, a derbyniwyd 58 ymateb o ysgolion ar draws 17 gwahanol sir a bwrdeistref Gymreig, ac o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, ysgolion anghenion addysgol arbennig, a'r rhai sy'n arbenigo mewn dysgu gydol oes. Ymatebodd 34 drwy gyfrwng y Saesneg a 24 drwy gyfrwng y Gymraeg.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Datgelodd y canfyddiadau heriau systemaidd wrth addysgu CGM yng Nghymru, gan gynnwys materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth gyfreithiol, gan nad yw dros hanner yr ysgolion yng Nghymru yn ateb y ddarpariaeth gyfreithiol leiaf o addysg CGM ar draws Cyfnodau Allweddol 3 a 4, ac nad oes adnoddau digonol i gefnogi'r addysg, a bod diffygion eraill yn yr addysgu.

## AMCANION YR HOLIADUR

Roedd yr holiadur yn ceisio deall sut y mae sefydliadau addysgol ledled Cymru wedi integreiddio CGM yn eu cwricwlwm ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1-3. Yn benodol, ceisiai ddeall, (1) sut mae athrawon yn canfod gwahaniaethau rhwng CGM ac Addysg Grefyddol, o ran eu canlyniadau dysgu, setiau sgiliau, cynnwys amrywiol, methodolegau addysgu, nodau ac amcanion; (2) y graddau y mae'r cwricwlwm yma sydd wedi'i ddiweddaru yn ymgorffori amrywiaeth o grefyddau byd-eang, safbwyntiau ac athroniaethau byd-eang; (3) a addysgir CGM yn annibynnol fel pwnc ar ei ben ei hun neu fel un o nifer o bynciau wedi'u hintegreiddio i gwricwlwm Dyniaethau ehangach. Lle addysgir CGM fel rhan o gwricwlwm Dyniaethau integredig, gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i ganfod yr amser a neilltuid i addysgu CGM o gymharu â'r pynciau eraill a addysgir ochr yn ochr ag ef, ac a oes

amrywiadau mewn lefelau staffio a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer athrawon CGM o gymharu â'r pynciau eraill. Roedd yr holiadur hefyd yn gofyn am wybodaeth ynglŷn ag effaith bosibl cyflwyno CGM yng Nghyfnod Allweddol 3 ar ddarpariaeth AG ac Astudiaethau Crefyddol (AC) yng Nghyfnod Allweddol 4.

## CYFRANOGWYR

Roedd yr holiaduron yn targedu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, a sefydliadau addysgol Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ledled Cymru, gan gwmpasu ysgolion y wladwriaeth a'r rhai â chymeriad crefyddol, er mwyn casglu ystod amrywiol o safbwyntiau a phrofiadau. Gan mai cymharol fach oedd yr ymatebion gan addysgwyr ysgolion cynradd, ni chafodd y set ddata hon ei chynnwys yn ein dadansoddiad, ond fe'i hystyriwyd yn ein hasesiadau o gyd-destun ehangach y ddarpariaeth CGM newydd.

Daeth 43 ymateb. Roedd y rhain gan athrawon a oedd yn addysgu naill ai mewn ysgolion uwchradd neu ysgolion a oedd yn addysgu Cyfnod Allweddol 3, mewn math o ysgolion canol. Roedd 32.56% o'r ymatebwyr yn addysgu mewn ysgolion dwyieithog, 30.23% mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a 37.21% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Cafwyd ymatebion gan athrawon yn y siroedd/bwrdeistrefi a ganlyn:

- Abertawe
- Caerdydd
- Caerfyrddin
- Casnewydd
- Castell-nedd Port Talbot
- Ceredigion
- Conwy
- Dinbych
- Gwynedd
- Morgannwg
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Sir Benfro
- Sir y Fflint
- Wrecsam
- Ynys Môn

Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi eu rôl addysgu. Cafwyd amrywiaeth o atebion:

- Athro newydd gymhwyso (ANG)
- Athro dosbarth
- Pennaeth CGM
- Pennaeth y Dyniaethau
- Uwch Dîm Arwain

Yn ôl y disgwyl, roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli athrawon â sbectrwm eang o brofiadau addysgu, yn rhychwantu'r rhai a nododd eu bod yn athrawon newydd eu cymhwyso i'r rhai a oedd wedi bod yn addysgu ers hyd at 36 mlynedd.

## YR HOLIADUR

Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau caeedig a phenagored i alluogi mewnwelediadau ystadegol trwy goladu setiau data meintiol, ac archwilio data ansoddol, a roddodd ddealltwriaeth ddyfnach a chlir i ni o ymatebion y cyfranogwr. Roedd gan gyfranogwyr y dewis i'w gwblhau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### Casglu Data

Sefydlwyd cyswllt cychwynnol gyda gweinyddwyr yr ysgol, a gofynnwyd am eu cydweithrediad wrth ddosbarthu'r holiadur i'r staff addysgu perthnasol. Cafwyd caniatâd moesegol gwybodus gan yr ysgolion a'r athrawon a gymerodd ran i sicrhau eu bod yn deall pwrpas yr holiadur, eu hawliau i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, a'r mesurau diogelu cyfrinachedd sydd ar waith. Gwnaed galwad agored am gyfranogwyr ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd, gan ofalu bod pawb yn ymwybodol o'u hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw bwynt. Roedd y cyfranogwyr yn ddienw er mwyn annog ymatebion llawnach a dirwystr. Gweinyddwyd yr holiadur yn electronig i ganiatáu casglu data yn effeithlon, llai o effaith amgylcheddol, ac i alluogi athrawon a sefydliadau i ymateb yn ôl eu cyfleustra o fewn y terfyn amser penodedig.

### Dadansoddi Data

Proseswyd y data meintiol o gwestiynau caeedig gan ddefnyddio meddalwedd ystadegol i gynhyrchu ystadegau disgrifiadol a chasgliadol, a fyddai'n darparu trosolwg meintiol o dueddiadau a phatrymau. Roedd ymatebion penagored yn destun dadansoddiad thematig, a ganiataodd hwylustod wrth nodi ac archwilio themâu, safbwyntiau a mewnwelediadau a godai dro ar ôl tro.

## CANFYDDIADAU

Mae'r adran hon yn archwilio ymatebion i'r cwestiynau allweddol yn eu tro.

### 1. A yw CGM yn eich sefydliad yn bwnc gorfodol i bob myfyriwr rhwng 3 ac 16 oed?

Fel y nodwyd, mae'n ofyniad cyfreithiol bod CGM yn cael ei addysgu yn ysgolion Cymru (Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru 2022). Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n datgelu nad yw cyfran sylweddol o ysgolion yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol hwn. Dim ond 17 (39.53%) a gadarnhaodd fod CGM yn bwnc gorfodol yn eu hysgol, a nododd 25 (58.14%) nad oedd y pwnc yn cael ei drin felly. Ni roddodd un athro ymateb (2.33%).

**Trafodaeth**

Mae'r gwahaniaeth hwn yn dangos methiant i gydymffurfio â mandadau cyfreithiol, ond mae hefyd yn awgrymu bod goblygiadau sylweddol a niweidiol i ddatblygiad addysgol myfyrwyr. Mae'r cwricwlwm newydd ar gyfer CGM yn rhoi pwyslais cryf ar yr angen i ddeall credoau crefyddol amrywiol, egwyddorion moesegol amrywiol, a gwerthoedd cymdeithasol amrywiol. Trwy beidio â chynnwys CGM fel pwnc gorfodol, mae ysgolion i bob pwrpas yn dad-sgilio eu myfyrwyr o'r sgiliau cymdeithasol hanfodol ac yn amddifadu cyfleoedd iddynt ddeall eu rôl fel dinasyddion cyfrifol mewn cymdeithas gynyddol amlddiwylliannol yng Nghymru a thu hwnt. Mae CGM yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol o fewn cymdeithas Cymru. Trwy archwilio gwahanol draddodiadau crefyddol, cwestiynau moesol, a fframweithiau moesegol, mae myfyrwyr yn datblygu'r sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau sydd eu hangen i lywio byd cynyddol amrywiol a rhyng-gysylltiedig. Mae methu â darparu'r sylfaen addysgol hon, nid yn unig yn tanseilio egwyddorion cynwysoldeb a goddefgarwch, ond hefyd yn meithrin anwybodaeth a rhagfarn. Mae amharodrwydd ysgolion i wneud CGM yn bwnc gorfodol yn adlewyrchu problem systemaidd sy'n ymestyn y tu hwnt i sefydliadau unigol. Mae'n tanlinellu'r angen am fwy o atebolrwydd a gorfodi safonau addysgol i sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu manteisio ar gwricwlwm cynhwysfawr a chynhwysol.

Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod eu hysgol wedi eithrio CGM o'u cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4, sy'n dangos y gallai rhai ysgolion fethu â chyflawni'r rhwymedigaeth gyfreithiol i addysgu CGM hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Mae hyn yn ysgogi'r angen i ymchwilio i ddyfodol cymwysterau TGAU yn y maes pwnc hwn.

### 2. Pa grefyddau sy'n cael eu hastudio fel rhan o'r cwricwlwm newydd?

Er mai nod fframwaith y cwricwlwm newydd yw grymuso athrawon i ymgorffori ystod ehangach o safbwyntiau moesegol ac athronyddol o'r byd, mae'n amlwg bod llawer o ysgolion yn dal i ganolbwyntio'n bennaf ar astudio'r 'chwe chrefydd fawr' draddodiadol (Cristnogaeth, Iddewiaeth, Islam, Hindŵaeth, Siciaeth a Bwdhaeth). O ganlyniad, mae'r ysgolion hyn yn cyflwyno cwricwlwm AG yn hytrach na chroesawu rhesymeg y cwricwlwm CGM.

Mae canlyniadau'r arolwg yn datgelu bod gan Gristnogaeth fonopoli ar y crefyddau a astudiwyd, gyda 98%, cyfran sylweddol o'r ymatebwyr, yn nodi ei bod wedi'i chynnwys yn eu cwricwlwm. Dangosodd yr astudiaeth fod Iddewiaeth yn cael ei chynnwys yng nghwricwlwm 88% o'r ymatebwyr, ac Islam yng nghwricwlwm 84% yr ymatebwyr. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu tueddiadau traddodiadol addysg grefyddol Cymru. Tra bod crefyddau dharmaidd yn cael eu cynrychioli, megis Hindŵaeth (72%), Bwdhaeth (70%), a Siciaeth (63%), mae cynnwys crefyddau lleiafrifol eraill, megis Paganiaeth, Dyneiddiaeth, a'r Ffydd Bahá'i yn fach iawn, gyda dim ond 5% o athrawon yn dweud eu bod yn cynnwys y crefyddau hyn yn eu cwricwlwm.

Mae'r data'n dynodi y ddiffyg ystyriaeth sylweddol sydd wedi'i rhoi i safbwyntiau seciwlar ac athronyddol, gyda dim ond 2% o'r athrawon yn adrodd eu bod wedi astudio anffyddiaeth a chredoau anghrefyddol. Mae hyn yn awgrymu bod cyfle wedi'i golli gan ysgolion i arallgyfeirio eu cwricwlwm a rhoi amlygiad amhrisiadwy i fyfyrwyr i sbectrwm ehangach o safbwyntiau moesol ac athronyddol.

**Trafodaeth**

Mae absenoldeb bydolygon penodol sy'n berthnasol i ardaloedd lleol a rhanbarthol Cymru, neu'r rhai sy'n ymwneud ag arbenigeddau staff, yn peri pryder. Er gwaethaf yr hyblygrwydd a roddir gan y fframwaith cwricwlwm newydd, prin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod ysgolion yn defnyddio'r cyfle hwn i ymgorffori'r safbwyntiau amrywiol a allai cyseinio'n agosach â phrofiadau bywyd eu myfyrwyr eu hunain a/neu arbenigedd eu staff addysgu.

Mae ein canfyddiadau yn amlygu bwlch sylweddol rhwng amcanion y cwricwlwm CGM a'i weithrediad mewn ysgolion ledled Cymru. Ymddengys bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal golwg gul a chyfyngedig ar grefydd, gan ganolbwyntio ar grefyddau traddodiadol yn unig, tra'n esgeuluso'r mandad ehangach i gyflwyno myfyrwyr i ystod eang o safbwyntiau seciwlar ac athronyddol. Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol i ysgolion gofleidio egwyddorion CGM drwy amrywio eu cwricwlwm er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu huwchsgilio a'u trwytho â dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o foeseg, gwerthoedd a safbwyntiau'r byd.

### 3. A oes adnoddau ar gael i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm CGM newydd?

Dim ond 18 (41.86%) o ymatebwyr a ddywedodd fod adnoddau ar gael i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Dywedodd 25 (58.14%) o ymatebwyr fod adnoddau'n annigonol iawn ac nad oedd adnoddau ar gael yn rhwydd. Nodwyd mai dim ond un gwerslyfr swyddogol sydd yn bodoli, ac yn uniaith Saesneg.[1]

**Trafodaeth**

Mae ein canfyddiadau'n datgelu diffyg cymorth ac arweiniad i athrawon sy'n peri pryder. Mae prinder adnoddau yn codi cwestiynau difrifol am gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm

[1] Parry, L. and Hayes, J. (2022) Curriculum for Wales: Religion, Values and Ethics for 11-14 years, Hodder Education: London (ISBN-10: 1398348740; 232 tudalen).

newydd. Mae deunyddiau addysgu digonol yn hanfodol er mwyn sicrhau datblygiad digonol o'r pwnc a'r gallu i'w addysgu'n effeithiol mewn ysgolion.

Mae'r ffaith mai dim ond un gwerslyfr CGM swyddogol sydd wedi'i gyhoeddi, a dim ond yn Saesneg, ar gyfer disgyblion 11-14 oed, yn gwbl annigonol. Ar ben hynny, mae ffocws y llawlyfr hwn yn bennaf ar wahanol grefyddau, ac o'r herwydd, nid yw'n mynd i'r afael â chylch gorchwyl ac egwyddorion ehangach CGM. Mae hyn yn broblematig, yn enwedig gan fod athro yn ceisio cynllunio ar gyfer ei addysgu ochr yn ochr â phynciau eraill, megis Hanes a Daearyddiaeth, fel rhan o gwricwlwm cymysg y Dyniaethau.

Mae absenoldeb fersiwn Gymraeg o'r gwerslyfr yn gwaethygu'r mater ymhellach ac yn codi pryderon sylweddol am y ddarpariaeth o adnoddau cyfrwng Cymraeg ac agweddau tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. Er gwaethaf cydraddoldeb cyfreithiol y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru ers 2011, mae'r methiant i gyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r gwerslyfr hwn ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg yn awgrymu bod addysgu a dysgu CGM yn Gymraeg o werth llai nag ydyw yn Saesneg. Mae ymatebwyr wedi ymateb i'r gwerslyfr uniaith Saesneg gyda rhwystredigaeth, ag un yn nodi eu bod wedi cysylltu'n bersonol â'r cyhoeddwr, Hodder Education, i ofyn am ganiatâd i gyfieithu rhai rhannau o'r llyfr. Gwrthodwyd caniatâd. Daeth i'r amlwg ers hynny nad oes gan Hodder Education unrhyw fwriad i gyfieithu'r gwerslyfr hwn i'r Gymraeg.

Er gwaethaf yr heriau hyn, soniodd ymatebwyr am rai enghreifftiau cadarnhaol o ffynonellau defnyddiol, yn enwedig gan ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli yn rhanbarthau de-ddwyrain a de-orllewin Cymru, lle crybwyllwyd sawl gwaith bod Cyngor Ymgynghorol Statudol ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Abertawe wedi bod yn gyson ac yn glir o ran ei ganllawiau ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm CGM. Yn ogystal, nodwyd bod adnoddau pedagogaidd sydd ar gael ar lwyfannau ar-lein megis gwefan NATRE, gwefannau Dyneiddwyr, a grwpiau CGM Facebook yn cynnig rhywfaint o gymorth i athrawon sy'n llywio'r cwricwlwm newydd.

### 4. A yw canllawiau'r llywodraeth[2] wedi eich helpu i ddatblygu CGM yn eich ysgol?

Mynegodd mwy na hanner yr ymatebwyr (23: 53.49%) anfodlonrwydd â chanllawiau Senedd Cymru (SC). Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod y canllawiau'n amwys ac o bosibl yn gamarweiniol. Nododd sawl un fod y canllawiau'n annelwig, yn aneglur, ac yn agored i ddehongliadau hollol wahanol, gan awgrymu felly'r potensial ar gyfer addysgu cwricwlwm CGM tra gwahanol mewn ysgolion yng Nghymru. Nododd rhai eu bod yn ymdrin â dysgu CGM fel pe bai'n dal i fod yn AG. Nododd eraill eu bod yn datblygu eu cwricwlwm i ganolbwyntio mwy ar athroniaeth a llai ar grefydd.

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod y termau 'gwerthoedd' a 'moeseg' sy'n rhan o CGM yn gofyn am ddiffiniadau clir, a chanllawiau ar y pynciau y dylid eu cynnwys yn yr astudiaeth

[2] Mae canllawiau SC i'w gweld ymahttps://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-05/consultation-document-curriculum-for-wales-religion-values-and-ethics-guidance.pdf

o werthoedd a moeseg. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod hyn yn peri pryder arbennig i'r rhai sy'n addysgu CGM mewn ysgolion anghenion addysgol arbennig (AAA).

Cydnabu un athro fod y canllawiau a amlinellwyd ar ddiwedd y ddogfen cwricwlwm Cymraeg yn ddefnyddiol "i raddau".

**Trafodaeth**

Mae methiant SC i ddarparu gweledigaeth drefnus a chydlynol ar gyfer CGM wedi arwain at athrawon yn cael trafferth dehongli a gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r diffyg eglurder hwn yn arwain at ddehongliadau amrywiol a chyferbyniol, sydd â'r potensial i arwain at wahaniaethau yn ansawdd a chynnwys y pwnc ar draws ysgolion yng Nghymru. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw myfyrwyr ledled Cymru yn cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer TGAU Addysg Grefyddol o fewn eu cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3, ac a yw ysgolion yn mynd i'r afael yn realistig â phynciau moeseg a gwerthoedd yn eu cwricwlwm neu'n dychwelyd i'r cwricwlwm Addysg Grefyddol hŷn yn unig. At hynny, mae'r diffyg arweiniad ar gyfer ysgolion AAA yn tanlinellu'r angen am ymchwil bellach a chymorth wedi'i deilwra yn y maes hwn.

### 5. Ydych chi wedi cael y cyfle am hyfforddiant proffesiynol i'ch cynorthwyo gyda'r cwricwlwm newydd?

Ymysg yr ymatebwyr, dywedodd 24 (55.81%) eu bod wedi derbyn rhyw fath o hyfforddiant, tra dywedodd 19 (44.19%) nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant. Daeth anghysondeb clir i'r amlwg rhwng athrawon cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, gyda chyfran sylweddol uwch o athrawon cyfrwng Cymraeg yn nodi nad oeddent wedi derbyn unrhyw fath o hyfforddiant.

**Trafodaeth**

Mae'r diffyg eglurder ar ganllawiau SC yn cael ei waethygu gan y ffaith mai cymharol ychydig o athrawon CGM sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae disgwyl i bob athro dderbyn hyfforddiant digonol i reoli'r newidiadau sylweddol yn y cwricwlwm. Mae'r diffyg hyfforddiant i athrawon cyfrwng Cymraeg yn peri pryder arbennig, ac mae'r pryder hwn yn ddirfawr waethygol gydag absenoldeb gwerslyfr cyfrwng Cymraeg (gweler uchod). Mae diffyg hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i CGM yn tanseilio egwyddorion addysg ddwyieithog ac yn peryglu dieithrio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn unigol a thrwy barhau ag anghyfartaledd ieithyddol o fewn y gyfundrefn addysg.

Cafwyd ymatebion cadarnhaol gan ymatebwyr yr oedd eu hysgolion yn darparu hyfforddiant ar gyfer y cwricwlwm newydd. Canmolwyd mentrau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrechion rhai unigolion, megis Jennifer Harding-Richards, Cynghorydd Addysg Grefyddol ac aelod o'r CYSAG ar gyfer Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, a gynhaliodd sesiynau hyfforddi gyda'r nos ar gyfer athrawon mewn ysgolion ar draws y rhanbarth hwn i archwilio gwahanol grefyddau a safbwyntiau'r byd. Menter arall a grybwyllwyd oedd cynllun Lat

Blaylock o *RE Today*, sy'n cynnal sesiynau hyfforddi i athrawon, a chynhadledd, StrictlyRE, sydd ill dau wedi'u targedu at athrawon ledled y DU ac angen tâl i fynychu (£100+).

Soniodd un ymatebydd fod Adran Addysg yr Esgobaeth yn cynnig rhai sesiynau hyfforddi ar-lein (dros TEAMS). Nid yw'n glir o'u hymateb beth oedd cynnwys y rhain. Yn yr un modd, soniodd ymatebydd o Bowys fod teithiau addysgol a gweithgor ar gael iddynt i'w helpu i fynd i'r afael â'r cwricwlwm newydd, ond nid yw manylion y rhain yn glir. Mae'r mentrau a grybwyllwyd yn awgrymu bod cyfleoedd hyfforddi yn ysbeidiol ac nad ydynt ar gael i lawer o ranbarthau yng Nghymru, oni bai bod unigolion yn fodlon ac yn gallu talu am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ar-lein, ac o gyfeiriad Lloegr.

Mae'n bwysig nodi bod y sesiynau hyfforddi sydd ar gael i fyfyrwyr yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin yn cael eu cynnal gyda'r nos ac ar benwythnosau. Roedd hyn yn gofyn i athrawon aberthu amser personol, ac roedd yn anochel yn golygu na fyddai rhai athrawon yn gallu bod yn bresennol. Ymhellach, mae'r sesiynau hyn yn dibynnu ar ewyllys da academyddion sydd ag arbenigedd mewn athroniaeth, crefydd a moeseg i gyfrannu at y sesiynau hyfforddi. Yn wir, mae aelodau o'n Canolfan wedi cyfrannu atynt.

Disgrifiodd rhai ymatebwyr, a nododd fod rhywfaint o hyfforddiant yn cael ei roi iddynt o fewn eu sefydliad eu hunain, nad oedd y sesiynau yn ddefnyddiol. Roedd eraill yn eu gweld yn gymharol ddefnyddiol. Roedd cysondeb ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarperir gan ysgolion yn amrywio'n sylweddol.

O ystyried yr ailwampio cynhwysfawr ar y cwricwlwm i gynnwys safbwyntiau athronyddol a moesegol ehangach, mae'n destun pryder nad yw hyfforddiant eang ar gael i bob athro CGM i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'n hanfodol mynd i'r afael â bylchau mewn hyfforddiant. Mae angen ymchwil pellach i nodi'r hyfforddiant sydd ar gael i bob rhanbarth ledled Cymru ac ymarferoldeb ei gostau ac amseriad ei gyflwyno.

### 6. A yw'r cwricwlwm newydd i Gymru wedi bod o fudd i CGM?

Mae 25 (58.14%) o ymatebwyr yn credu bod y cwricwlwm newydd yn fuddiol mewn theori ac y gallai fod yn effeithiol pe bai'n cael ei ddatblygu a'i gymhwyso'n ofalus. Dywedodd 17 (39.53%) nad oedd y cwricwlwm newydd yn fuddiol, gyda sawl un yn nodi ei ddiffyg gweledigaeth gydlynol. Roedd nifer sylweddol o'r rhai a fynegodd anfodlonrwydd yn dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg, sef 11 o ymatebwyr. Dewisodd un ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

**Trafodaeth**

Mae ymatebwyr yn cydnabod manteision posibl cwmpas ehangach y cwricwlwm gyda'i allu ar gyfer addysg drawsnewidiol drwy annog myfyrwyr i archwilio profiadau bywyd amrywiol, traddodiadau crefyddol amrywiol, a safbwyntiau athronyddol amrywiol, ac i fyfyrio'n ddyfnach ar faterion moesegol. Ond mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd am yr anghysondebau a'r amwysedd sy'n gysylltiedig â gweithredu CGM ar draws ysgolion yng Nghymru. Nodwyd gan rai nad oes gan CGM hunaniaeth gydlynol. Adlewyrchwyd hyn mewn

sawl ymateb lle mynegodd athrawon ddryswch ac anawsterau wrth drosglwyddo o gwricwlwm traddodiadol AG i fframwaith ehangach a mwy cynhwysol CGM. Nodwyd yma eto gan athrawon mai'r diffyg arweiniad unedig ac eglurder gan y llywodraeth ar y gwahaniaethau rhwng y ddau bwnc sy'n allweddol i'r broblem.

Yn y pen draw, er bod athrawon yn cydnabod gwerth a photensial cynhenid CGM, mae mynd i'r afael â'r bylchau presennol o ran gweithredu a darparu cymorth ac arweiniad digonol yn gamau hollbwysig tuag at wireddu ei fanteision llawnach yn addysg Cymru.

### 7. Sawl awr o amser cwricwlwm y mae AG/CGM yn ei dderbyn yn eich ysgol ar hyn o bryd?

Mae'r oriau a ddyrannir i addysgu CGM yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion. Ar gyfartaledd, yr amser a neilltuir i addysgu CGM yw awr yr wythnos. Fodd bynnag, adroddwyd dyraniadau amser amrywiol. Nododd rhai ymatebwyr amgylchiadau mwy ffafriol, megis dwy awr yr wythnos, gydag un ymatebydd yn nodi dyraniad o bum awr yr wythnos ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 7, ac yna dwy awr yr wythnos ar gyfer myfyrwyr ym Mlynyddoedd 8 a 9. Nododd un ymatebydd fod CGM yn derbyn dim ond 15 awr y flwyddyn ac fe'i neilltuwyd fel rhan o gwricwlwm cymysg y Dyniaethau.

**Trafodaeth**

Mae cryn wahaniaeth yn yr oriau a ddyrannir ar gyfer CGM ar draws ysgolion yng Nghymru. Mae hyn yn atgyfnerthu anghysondebau wrth gyflwyno'r cwricwlwm ac yn codi cwestiynau sylweddol ynghylch cyfle cyfartal sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio CGM yng Nghymru. Lle mae'r amser a neilltuir i CGM yn hynod gyfyngedig, mae myfyrwyr yn annhebygol o gael eu hamlygu i'r amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol a materion moesegol sy'n ofynnol ar gyfer y cwricwlwm CGM, ac, yn yr un modd, mae'n debygol o arwain at ddealltwriaeth arwynebol ac argraffiadau sgiw o'r gwerthoedd a fabwysiadwyd o fewn cymdeithas a'r rhai a gynhelir mewn diwylliannau eraill. Gallai gostyngiad yn y dyraniad amser felly danseilio a niweidio canlyniadau arfaethedig y cwricwlwm newydd yn anfwriadol.

Amlygodd un ymatebydd mai dim ond am 15 awr y flwyddyn yr addysgir CGM fel rhan o gwricwlwm cymysg y Dyniaethau. Mae hyn yn frawychus, gan y neilltuir 4 awr yr wythnos i bynciau Dyniaethau gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu bod meysydd pwnc eraill yn cael eu blaenoriaethu'n drwm ar draul CGM.

Mae angen gwneud rhagor o ymchwil i ddeall a yw'r newid o gwricwlwm Addysg Grefyddol ar ei ben ei hun i'w integreiddio i fframwaith Dyniaethau ehangach wedi cael effaith negyddol ar nodau ac amcanion ac ansawdd addysgu CGM, ac, o ganlyniad, gostyngiad mewn llythrennedd crefyddol, sgiliau datrys problemau, sgiliau dadansoddi beirniadol, rhesymu moesegol, a dealltwriaeth foesol ymhlith ymadawyr ysgol yng Nghymru.

### 8. A yw CGM yn derbyn yr un faint o amser â'r hen gwricwlwm ar gyfer AG yng Nghymru?

Dywedodd 26 (60.47%) o ymatebwyr fod CGM yn derbyn yr un oriau neu oriau tebyg ag y byddai AG cyn trosglwyddo i'r cwricwlwm newydd. Nododd 15 (34.88%) o ymatebwyr fod y

pwnc yn derbyn llai o oriau. Nid ymatebodd 2. Nododd 2 ymatebydd fod eu hysgolion wedi dewis naill ai lleihau CGM/AG yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ei ddileu yn gyfan gwbl.

**Trafodaeth**

Mae’r gostyngiad yn y ddarpariaeth CGM o’i gymharu â’i gymar hŷn, AG, yn eang. Mae tynnu neu leihau CGM o Gyfnod Allweddol 4 yn frawychus mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae’n mynd yn uniongyrchol groes i’r gofyniad cyfreithiol bod CGM yn cael ei addysgu i bob myfyriwr hyd at 16 oed. Mae rhai ysgolion felly’n methu yn eu rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu addysg gynhwysfawr i’w myfyrwyr trwy beidio ag addysgu cynnwys a sgiliau hanfodol iddynt sy’n perthyn i gynwysoldeb a goddefgarwch. Yn ail, mae’n amddifadu myfyrwyr o’r cyfle i ddatblygu sgiliau bywyd sy’n hanfodol ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.

### 9. A oes angen mwy o amser cwricwlwm ar CGM?

Mae 32 (74.42%) o ymatebwyr yn credu bod CGM angen dyraniad mwy o oriau a addysgir yn y cwricwlwm i sicrhau ei fod yn cael ei addysgu’n briodol er mwyn rhoi digon o amser i fyfyrwyr ddysgu ei gynnwys a’i sgiliau. Mae sylwadau gan ymatebwyr yn cynnwys:

“Rydyn ni’n cael hanner yr amser mae Hanes a Daearyddiaeth yn ei gael ym Mlwyddyn 7 ac 8 a hyd yn oed yn llai ym Mlwyddyn 9. Ac eto, mae disgwyl i ni wneud yr un lefel o gynnydd gyda’r myfyrwyr.”

“Yr unig bynciau eraill a neilltuir cyn lleied o amser yw’r Celfyddydau. Fel pwnc academaidd dylai CGM dderbyn oriau tebyg i’r dyniaethau eraill.”

“CGM yw un o’r pynciau mwyaf perthnasol rydyn ni’n ei ddysgu i fyfyrwyr gan y bydd yn rhaid iddyn nhw ddeall crefydd, moeseg ac athroniaeth pan maen nhw’n mynd i’r byd go iawn. Ond er gwaethaf delio â phethau mor bwysig, mae’n derbyn llai o amser na’r dyniaethau eraill.”

**Trafodaeth**

Mae’r alwad am fwy o amser i addysgu CGM yn amlygu diffyg canfyddedig yn strwythur presennol y cwricwlwm o gymharu â phynciau eraill yng nghwricwlwm y Dyniaethau. Er gwaethaf y mandad cyfreithiol i addysgu CGM fel pwnc gorfodol, mae ein hymchwil yn awgrymu y gallai ysgolion fod yn cael trafferth ei integreiddio’n effeithiol o fewn amserlenni a blaenoriaethau presennol. Gall hyn gael ei waethygu gan alwadau cystadleuol i addysgu pynciau eraill, gan adnoddau cyfyngedig ar gyfer CGM, a chan ddiffyg hyfforddiant, a chefnogaeth annigonol i athrawon CGM.

Mae sylwadau gan athrawon yn awgrymu y gallai’r awydd cyffredin am fwy o amser a neilltuir i CGM adlewyrchu canfyddiadau ehangach am arwyddocâd cynyddol CGM mewn cymdeithas heddiw, i arfogi myfyrwyr â’r sgiliau sydd eu hangen i lywio heriau’r byd go iawn, materion moesol a moesegol cymhleth, ac i ymgysylltu’n adeiladol â chymunedau amrywiol.

Nododd un ymatebydd, “Nid oes gan CGM y 5% penodedig, nid ar sail y canllawiau ar Hwb.”[3] Mae hyn yn tanlinellu’r diffyg canllawiau clir a roddir i’r dyraniad amser gofynnol ar gyfer y pwnc, ac mae hyn, yn ei dro, yn rhwystro ymdrechion i leoli CGM yn deg ac yn ddigonol o fewn y cwricwlwm.

### 10. A yw AG/CGM yn bwnc ar ei ben ei hun neu’n rhan o gwricwlwm y Dyniaethau?

Dywedodd 25 (58.14%) o ymatebwyr fod CGM wedi’i integreiddio i gwricwlwm Dyniaethau cymysg yn eu hysgol, a dywedodd 18 (41.86%) o ymatebwyr ei fod yn cael ei addysgu fel pwnc ar ei ben ei hun.

**Trafodaeth**

Mae addysgu CGM fel rhan o gwricwlwm Dyniaethau cymysg yn awgrymu dull rhyngddisgyblaethol, lle mae themâu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn cydblethu â phynciau eraill, fel hanes, daearyddiaeth ac astudiaethau cymdeithasol. Mae gan y dull hwn y potensial i roi dealltwriaeth fwy cyfannol i fyfyrwyr o sut mae credoau crefyddol ac egwyddorion moesegol yn croestorri â materion cymdeithasol ehangach. Trwy integreiddio CGM i gwricwlwm y dyniaethau, gall ysgolion feithrin gwerthfawrogiad dyfnach o gydgysylltiad gwahanol safbwyntiau diwylliannol a fframweithiau moesol.

Fodd bynnag, mae’r data yr ydym wedi’i gasglu o’r arolwg yn awgrymu nad yw’r dull integreiddiol a chyfannol hwn yn cael ei fabwysiadu, ond, yn hytrach, bod CGM yn cael ei wthio i’r cyrion gan ganolbwyntio ar addysgu pynciau eraill a gynrychiolir yn y cwricwlwm Dyniaethau cymysg. Yn ogystal â pha mor hawdd yw gwthio pynciau i’r cyrion o blaid eraill, mae dull y Dyniaethau cymysg yn cynyddu’r tebygolrwydd y bydd myfyrwyr yn cael eu haddysgu gan rywun nad oes ganddynt unrhyw arbenigedd mewn un neu fwy o’r pynciau a astudir. Mae hyn yn golygu y gallai dyfnder ac ansawdd y cyfarwyddyd a’r addysg gael eu peryglu.

Mae addysgu CGM fel pwnc ar ei ben ei hun yn cynnig y fantais o dderbyn amser penodedig lle gellir canolbwyntio’n benodol ar addysg grefyddol, gwerthoedd, a moeseg, a chyfleoedd ar gyfer trafodaethau dyfnach, mwy ystyrlon a myfyrdodau beirniadol ar faterion cymhleth yn ymwneud â moesoldeb, hunaniaeth a chred. Mae rhinweddau ac anfanteision i’r ddau ddull, a bydd y penderfyniad i addysgu CGM o fewn cwricwlwm Dyniaethau cymysg neu fel pwnc ar ei ben ei hun yn amrywio, yn dibynnu ar ffactorau megis adnoddau ysgol, blaenoriaethau’r cwricwlwm, a dewisiadau addysgegol. Waeth beth fo’r dull a ddefnyddir, mae’n hollbwysig bod CGM yn cael ei addysgu’n gynhwysfawr.

Ceisiodd y tri chwestiwn nesaf (10b-10ch) egluro’r agweddau cadarnhaol a negyddol ar y gwahanol ddulliau hyn o addysgu CGM, ac a yw addysgu CGM fel rhan o gwricwlwm dyniaethau integredig yn gosod cyfyngiadau difrifol ar y gallu i’w addysgu’n effeithiol, o ran yr amser a ddyrannid a’r diffyg arbenigedd i’w addysgu.

[3] Hwb: y gronfa adnoddau ar-lein gan y llywodraeth i gefnogi’r Cwricwlwm i Gymru: https://hwb.gov.wales/resources.

### 10b. Os addysgir CGM fel rhan o gwricwlwm y dyniaethau, a yw'n derbyn yr un faint o amser â phynciau eraill y Dyniaethau?

Mae 65% (27 o'r ymatebwyr) yn addysgu CGM fel rhan o gwricwlwm cymysg y Dyniaethau. O'r grŵp cynrychioliadol hwn, nododd 12 o'r ymatebwyr (27.91%) nad yw CGM yn derbyn yr un faint o amser â phynciau eraill y Dyniaethau, a nododd 16 (37.21%) fod y pwnc yn derbyn amser cyfartal. Darparodd 3 ymatebydd fanylion pellach ynghylch sut y mae CGM yn rhan o'u cwricwlwm Dyniaethau fel a ganlyn. Nododd 1 ymatebydd, er bod Hanes a Daearyddiaeth yn derbyn tair awr yr wythnos, dim ond dwy awr y pythefnos y mae CGM yn ei dderbyn. Dywedodd un arall fod Hanes a Daearyddiaeth yn derbyn cyfanswm o 70 awr yr un ar gyfer myfyrwyr ym Mlynyddoedd 7 ac 8, tra bod CGM yn derbyn 15 awr yn unig o fewn yr un amserlen. Soniodd y trydydd ymatebydd eu bod yn cael dysgu CGM am ddim ond hanner yr amser a neilltuir i Hanes a Daearyddiaeth i fyfyrwyr ym Mlynyddoedd 7 ac 8, gyda gostyngiad pellach i 1 awr bob pythefnos ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 9.

**Trafodaeth**

Rhannwyd y cyfraddau ymateb rhwng 10b a 10c. Mae ymatebion i 10b yn cadarnhau bod gwahaniaeth sylweddol rhwng yr amser a neilltuir i CGM o'i gymharu â phynciau eraill y Dyniaethau, ac mae'r ymatebion yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i'r anfodlonrwydd y mae athrawon yn ei deimlo am y gwahaniaeth. Mae ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amlygu pwysigrwydd teimladau'r athro am eu harbenigedd pwnc a'u hyder yn eu gallu i lywio'r broses o gyflwyno CGM. Nododd un ymatebydd fod dyrannu amser ar gyfer CGM o fewn y cwricwlwm Dyniaethau yn dibynnu ar hyfedredd a brwdfrydedd yr athro eu hunain ar gyfer addysgu thema uned. Mae hyn yn dynodi amrywiadau sylweddol posibl yn ansawdd a chysondeb addysgu CGM ar draws ystafelloedd dosbarth ac yn codi pryderon am y profiad addysgol a chanlyniadau i fyfyrwyr.

### 10c. Os addysgir CGM fel pwnc annibynnol, a yw'n cael yr un faint o amser cwricwlwm â phynciau eraill y Dyniaethau?

Nododd un ymatebydd fod CGM fel pwnc ar ei ben ei hun yn derbyn 2 awr bob yn ail wythnos, o gymharu â 3 awr yr wythnos ar gyfer pynciau unigol Hanes a Daearyddiaeth. Nododd ymatebydd arall fod CGM yn derbyn 1 awr yn llai bob pythefnos o gymharu â phynciau eraill y Dyniaethau ac nad yw CGM yn cael ei gynnwys na'i grybwyll yn nyddiau sefydlu Blwyddyn 6. Soniodd sawl ymatebydd fod CGM yn derbyn llai o amser addysgu ym Mlynyddoedd 8 a 9 fel pwnc ar ei ben ei hun o gymharu â Hanes a Daearyddiaeth. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y pwnc, yn syml, yn derbyn "llai" o amser, gan nodi canfyddiad neu ymwybyddiaeth gyffredinol o CGM yn derbyn llai o sylw neu lai o adnoddau o gymharu â phynciau Dyniaethau annibynnol eraill. Nododd un ymatebydd fod Daearyddiaeth a Hanes ill dau yn derbyn dwywaith yr amser addysgu ag ydyw Crefydd a Moeseg ym Mlwyddyn 9 pan gânt eu haddysgu fel pynciau unigol. Mynegodd rhai ymatebwyr ansicrwydd ynghylch y gwahaniaethau mewn amser addysgu rhwng CGM a phynciau eraill y Dyniaethau pan gânt eu haddysgu'n annibynnol ar ei gilydd. Mae dau ymatebydd yn nodi bod CGM yn derbyn awr yn llai yr wythnos, gan amlygu y bu gostyngiad penodol yn yr amser a neilltuwyd i CGM o gymharu â phynciau unigol eraill. Nododd un

ymatebydd nad oes unrhyw wahaniaeth yn yr amser addysgu ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 8 pan addysgir CGM fel pwnc ar ei ben ei hun.

**Trafodaeth**

Fel ymatebion ar gyfer 10b, mae'r wybodaeth a gasglwyd yma yn cadarnhau'r gwahaniaethau rhwng yr amser a neilltuir i CGM o'i gymharu â phynciau eraill y Dyniaethau, a'r anfodlonrwydd y mae athrawon yn ei deimlo am hyn. Mae'r ffaith nad yw CGM wedi'i gynnwys na'i grybwyll yn nyddiau sefydlu Blwyddyn 6 mewn un ysgol yn awgrymu nad yw CGM yn derbyn yr un lefelau neu lefelau tebyg o bwyslais neu ystyriaeth â phynciau eraill yn ystod cyfnodau trosiannol allweddol yn addysg eu myfyrwyr.

### 10ch. A yw eich ysgol yn darparu hyfforddiant i athrawon nad ydynt yn arbenigo mewn pynciau i sicrhau y gallant ddarparu'r addysg orau i'r Dyniaethau?

Dywedodd 9 (20.93%) o ymatebwyr fod eu hysgolion yn darparu hyfforddiant i athrawon Dyniaethau nad oeddent yn arbenigwyr yn eu pwnc Dyniaethau. Dywedodd 33 (76.74%) o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw gyfleoedd hyfforddi ar gael i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr ym mhynciau'r Dyniaethau. Nododd un bod eu Pennaeth Adran yn sicrhau hyfforddiant mewn Hanes a Daearyddiaeth ond nid mewn CGM, oherwydd mai'r hyn yw'r pwnc, meddai, yw "dim ond barn, beth bynnag". Soniodd un ymatebydd am yr angen i athrawon Hanes gamu i mewn a dysgu gwersi CGM oherwydd prinder staff.

**Trafodaeth**

Mae'n amlwg o sylwadau'r ymatebwyr fod yna bryder amlwg gan athrawon am y diffyg arbenigedd pwnc ymhlith athrawon sydd â'r dasg o gyflwyno CGM a phynciau Dyniaethau eraill. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y gwahaniaethau sylweddol mewn pynciau cynnwys a sgiliau CGM, Hanes, a Daearyddiaeth, a phwysleisiwyd yr angen am hyfforddiant arbenigol i sicrhau bod athrawon wedi'u trwytho'n briodol i reoli eu gwahaniaethau'n ddigonol.

Mae ein hymchwil yn amlygu'r angen i flaenoriaethu hyfforddiant athrawon anarbenigol sydd â'r dasg o addysgu CGM a phynciau eraill y Dyniaethau er mwyn sicrhau nad yw uniondeb y cwricwlwm yn cael ei beryglu. Mae hefyd yn amlwg bod angen mwy o gydnabyddiaeth i heriau a chymhlethdodau unigryw addysgu CGM er mwyn sicrhau bod hyfforddiant wedi'i deilwra'n briodol i'w ofynion addysgegol.

## CRYNODEB O GANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Mae ymatebion i'r arolwg yn amlygu heriau a chyfleoedd amrywiol o ran addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ysgolion Cymru. Mae canfyddiadau allweddol yn tanlinellu'r angen am gymorth cynhwysfawr, arweiniad cliriach, a buddsoddiad parhaus i sicrhau ei integreiddiad llwyddiannus i'r cwricwlwm. Yn fuan ar ôl cwblhau'r arolwg, derbyniodd y Ganolfan nifer o ohebiaethau gan athrawon a oedd yn awyddus i wneud sylwadau ychwanegol neu i fynegi eu pryderon yn fwy grymus. Isod, mae crynodeb o'r pwyntiau allweddol o'r arolwg a phwyntiau a bwysleisiwyd mewn gohebiaeth atodol gan athrawon.

**Canfyddiad o CGM fel pwnc dibwrpas ac un a danbrisir.** Mae ysgolion yn tueddu i ystyried CGM fel gofyniad gweinyddol 'ticio blwch' yn unig, yn hytrach na chyfle ar gyfer addysg drawsnewidiol.

**Angen hyfforddiant a buddsoddiad.** Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad ariannol a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i uwchsgilio athrawon ac i wella eu lefelau hyder a chymhwysedd wrth gyflwyno CGM yn ddigonol.

**Eglurder a chysondeb yn y cwricwlwm.** Mae dryswch ymhlith athrawon ac ysgolion ynglŷn â'r disgwyliadau a osodir arnynt ar gyfer addysgu'r prif grefyddau yng Nghyfnod Allweddol 3, ac y gall y lefel bresennol o ryddid a roddir i ysgolion ar lunio'r cwricwlwm CGM arwain at ddarpariaeth anghyson, a, gyda hynny, niweidio'n andwyol eu myfyrwyr yn eu paratoadau a'u perfformiadau ar gyfer arholiadau TGAU..

**Argaeledd adnoddau a hyder i addysgu**. Thema sy'n codi dro ar ôl tro yn ein hymchwil yw'r diffyg hyder ymhlith athrawon i gyflwyno digon o wersi CGM, oherwydd adnoddau, gwerslyfrau, cymorth ac arweiniad cyffredinol sydd oll yn annigonol.

**Llwyth gwaith a materion staffio.** Mae heriau staffio sylweddol, gyda rhai ysgolion yn brin o athrawon ag arbenigedd mewn CGM, neu'n gofyn iddynt addysgu pynciau lluosog. Mae hyn yn codi pryderon am ansawdd a chysondeb darpariaeth CGM ar draws ysgolion yng Nghymru.

**Polisïau aneglur y llywodraeth.** Mae galw gan athrawon ac ysgolion am bolisïau addysgol clir i ddiogelu statws CGM o fewn cwricwlwm cymysg y dyniaethau, ac am fwy o arweiniad a chefnogaeth gan gyrff y llywodraeth i sicrhau cysondeb a chydlyniad yn y ddarpariaeth CGM.

**Asesu a Dilyniant.** Yn gysylltiedig â materion o amwysedd ynghylch cwmpas a ffocws y cwricwlwm CGM, mae cwestiynau a godwyd gan athrawon ynghylch y ffordd orau o asesu dilyniant myfyrwyr ar draws y cwricwlwm CGM yn unol ag egwyddorion dilyniant a datganiadau 'beth sy'n bwysig'. Mae awydd am arweiniad gyda chysylltiadau trawsgwricwlaidd a dulliau asesu effeithiol.

**Cyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol**. Mae athrawon yn cydnabod yr angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus i ddyfnhau eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth addysgu credoau crefyddol ac anghrefyddol..

**Diweddaru'r cwricwlwm i'w gadw'n berthnasol.** Mae angen amlwg i sicrhau bod y cwricwlwm CGM yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n barhaus i sicrhau ei berthnasedd a'i effeithiolrwydd wrth fodloni disgwyliadau, diddordebau ac anghenion y myfyrwyr eu hunain. Mae hyn yn cynnwys darparu mwy o gyd-destun i'r testunau a addysgir ac osgoi ymestyn y cynnwys yn ddiangen i ymgorffori ffeithiau a gwybodaeth amherthnasol.

**Effaith gadarnhaol CGM.** Er gwaethaf heriau addysgu CGM, mae nifer o ymatebwyr wedi nodi bod newid y cwricwlwm o AG i CGM wedi cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant eu myfyrwyr ac ar yr amgylcheddau addysgu a dysgu yn eu hysgolion.

## CASGLIAD

Mae'r anghysondeb rhwng mandadau cyfreithiol ar gyfer addysgu CGM fel pwnc gorfodol yng Nghymru a sut y rhoddid yr addysg ar waith yn tanlinellu methiant systemaidd ar draws ysgolion Cymru i gadw at egwyddorion sylfaenol y cwricwlwm newydd. Mae'r datgysylltiad rhwng polisi'r llywodraeth ac arfer addysgol yn codi cwestiynau sylfaenol am atebolrwydd a'r angen am safonau addysgol.

Mae pwysau aruthrol ar athrawon wedi'u dwysáu gan ddiffyg adnoddau ac arweiniad digonol ar gyfer CGM, yn awgrymu bod y cwricwlwm newydd wedi'i drefnu'n gyflym a'i weithredu'n anghyfrifol yn ysgolion Cymru heb ystyriaeth a rhagwelediad i'r problemau anochel sydd wedi codi i ysgolion, athrawon, a myfyrwyr fel ei gilydd. Er bod rhai straeon 'newyddion da' i'w clywed yn rhanbarthau'r De-ddwyrain a'r De-orllewin, mae'r sefyllfa'n gyffredinol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr o dan anfantais ddifrifol gan yr arferion addysg CGM presennol a bod y pwnc yn cael ei beryglu'n fawr.

Mae diffyg hyfforddiant digonol ar gyfer athrawon anarbenigol sydd â'r dasg o gyflwyno CGM yn gwaethygu pryderon ynghylch ansawdd a chysondeb CGM ar draws ysgolion Cymru. Mae prinder arbenigedd pwnc CGM ymhlith athrawon, ynghyd â phrinder staff, a chyfleoedd hyfforddi cyfyngedig, yn gosod heriau sylweddol i weithrediad llwyddiannus y cwricwlwm CGM. Heb gefnogaeth ac adnoddau digonol, gall athrawon barhau i'w chael yn anodd ymdopi â chymhlethdodau addysgu CGM yn effeithiol, ac mae perfformiad eu myfyrwyr yn anochel am ddioddef o ganlyniad.

Mae'r ffocws cul a roddir i astudio crefyddau traddodiadol ar draul safbwyntiau moesegol byd-eang ac athronyddol amrywiol yn cynrychioli cyfle a gollwyd i feithrin cynwysoldeb a dealltwriaeth ddiwylliannol o fewn y cwricwlwm. Er bod y fframwaith ar gyfer y cwricwlwm newydd yn anelu at ehangu cwmpas addysg grefyddol a hybu sgiliau dadansoddi a meddwl yn feirniadol, mae'r pwyslais parhaus ar y 'chwe chrefydd fawr' yn methu â symud y tu hwnt i'r cwricwlwm Addysg Grefyddol hŷn, ac mae'n adlewyrchu agwedd flinedig a hesb nad yw'n llwyddo i gyfleu amrywiaeth y gymdeithas gyfoes yn ddigonol.

### Strwythuro cwricwlwm integredig/cymysg y Dyniaethau ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 yn ffurfiol.

Mae ein hymchwil wedi nodi bod mabwysiadu dull dyniaethau cymysg neu integredig addysgu CGM wedi arwain at wthio CGM at y cyrion, yn benodol o fewn y cwricwlwm, gyda phynciau eraill (yn arbennig, Hanes a Daearyddiaeth) yn derbyn mwy o amser neilltuedig, a hynny yn anghymesur. Er nad yw hyn yn broblem i bob ysgol yng Nghymru, mae'n amlwg fod canran sylweddol o ysgolion yn wynebu heriau niferus wrth gyflwyno cwricwlwm Dyniaethau sy'n rhoi amser a gofod cyfartal i CGM ochr yn ochr â phynciau eraill y Dyniaethau. Mae atal CGM yng nghwricwlwm y Dyniaethau mewn perygl o bylu sgiliau

cymdeithasol a dadansoddol hanfodol i fyfyrwyr, sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer twf academaidd, cymdeithasol a phersonol.

Argymhellir y dylid cydnabod effaith cwricwlwm cymysg y Dyniaethau ar ganlyniadau TGAU a chanlyniadau Safon Uwch. Mae ein hymchwil yn awgrymu y bydd llawer iawn o fyfyrwyr yn cael eu haddysgu am CGM yn ystod Cyfnod Allweddol 3 gan athrawon sy'n arbenigo mewn Hanes neu Ddaearyddiaeth, ac sydd heb wybodaeth arbenigol ar gyfer CGM. Mae tebygolrwydd amlwg na fydd y myfyrwyr hyn yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i symud ymlaen i TGAU Astudiaethau Crefyddol neu Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol. Yn yr un modd, os bydd yr athrawon hyn yn methu â meithrin brwdfrydedd am CGM yn eu myfyrwyr, gallai arwain at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio Astudiaethau Crefyddol ar lefel arholiad. Ymhellach, o ystyried natur sensitif rhai pynciau CGM, mae perygl y gallai'r athrawon hyn dramgwyddo grwpiau crefyddol yn anfwriadol a pheryglu cyfanrwydd y pwnc trwy gyflwyno syniadau'n anghywir neu gyflwyno tasgau amhriodol wrth addysgu.

Mae angen canllawiau clir i ddiogelu CGM ar draws lleoliadau addysgol. O ystyried rôl ganolog CGM yn paratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd a gwaith go iawn o fewn Cymru amlddiwylliannol a thu hwnt, mae dadl gref dros ddysgu CGM fel pwnc ar wahân ac ar ei ben ei hun yn unig. Fodd bynnag, os yw Senedd Cymru am geisio parhau i gynnwys CGM yng nghwricwlwm y Dyniaethau cymysg, dylai ddarparu canllawiau clir sy'n nodi strwythur y cwricwlwm hyn er mwyn sicrhau bod amser cyfartal yn cael ei ddyrannu ar gyfer pob pwnc. At hynny, mae angen arweiniad clir ar ysgolion ynghylch a ddylid cyflwyno cwricwlwm Dyniaethau cymysg drwy unedau penodol, gyda phob un yn canolbwyntio ar un pwnc Dyniaethau, neu a ddylid mabwysiadu ymagwedd thematig, lle mae thema benodol yn cael ei harchwilio o wahanol safbwyntiau a gasglwyd o bob pwnc yn y Dyniaethau.

Rydym yn annog Senedd Cymru i sicrhau bod Estyn, yr arolygiaeth addysg ar gyfer Cymru, yn adolygu'r modd y cyflwynir CGM ym mhob ysgol a sefydlu mandad sy'n sicrhau nad yw CGM yn cael ei roi o'r neilltu o fewn y cwricwlwm ysgol. Rydym yn argymell yn gryf bod Senedd Cymru yn cydweithio â Chanolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru i lunio set glir a chynhwysfawr o ganllawiau sy'n gosod CGM yn gywir, yn deg ac yn effeithiol o fewn y cwricwlwm. Bydd y canllawiau hyn yn pwysleisio'r gofynion amser angenrheidiol a neilltuir i CGM ar draws pob Cyfnod Allweddol.

### Darparu sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) sy'n rhad ac am ddim ac sy'n hawdd eu cyrraedd ar gyfer athrawon CGM ac athrawon anarbenigol sydd â'r dasg o addysgu CGM.

Mae addysgu CGM gan athrawon nad oes ganddynt unrhyw arbenigedd yn y maes pwnc yn peri pryder, yn enwedig pan ystyrir natur sensitif ei gynnwys a'r posibilrwydd y gallai llawer o athrawon anarbenigol gamliwio'n anfwriadol, ac o bosibl, dramgwyddo myfyrwyr ac eraill oherwydd eu diffyg gwybodaeth am syniadau, credoau a safbwyntiau crefyddol ac athronyddol. At hynny, mae'r sgiliau dadansoddi beirniadol a myfyriol y mae CGM yn eu haddysgu yn gofyn am rywfaint o soffistigedigrwydd a hyfedredd y gallai athrawon anarbenigol eu gweld yn agweddau heriol. Daw hyn yn arbennig o broblematig wrth baratoi myfyrwyr ar gyfer gofynion yr arholiad TGAU yn y pwnc.

Mae gohebiaeth â'n Canolfan gan athrawon yn dangos bod ymagwedd y Dyniaethau cymysg at CGM yn dechrau cael effaith andwyol ar ddatblygiad proffesiynol athrawon cyswllt, drwy eu hatal rhag cwblhau eu TAR oherwydd diffyg cyfleoedd i addysgu CGM yn ystod lleoliadau.

Mae'r methiannau hyn yn galw am weithredu brys i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol. Mae canllawiau clir a diamwys, adnoddau cynhwysfawr sydd ar gael yn rhwydd, a mecanweithiau cymorth cadarn yn hanfodol i sicrhau gweithrediad llwyddiannus y cwricwlwm CGM.

Er ei bod yn ymddangos bod y rhan fwyaf o athrawon yn canmol y trawsnewid o AG i CGM ac yn nodi pwysigrwydd cymdeithasol a pherthnasedd amserol ei gynnwys fel mater allweddol, mae teimlad cyffredinol o bryder yn treiddio drwy'r sylwadau a wnaed gan athrawon drwy gydol yr arolwg, ac mae hyn yn parhau yn y llif cyson o ohebiaeth rydym yn parhau i'w derbyn yn y Ganolfan gan athrawon CGM ers mabwysiadu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Mae'n hanfodol gofalu am fesurau a mentrau rhagweithiol, gan gynnwys datblygiad proffesiynol sydd wedi'i dargedu, diwygiadau i'r cwricwlwm, a gwell fecanweithiau cymorth i sicrhau gweithrediad llwyddiannus y cwricwlwm CGM, a thrwy hynny, wireddu potensial CGM fel grym trawsnewidiol yn addysg Cymru.

## ARGYMHELLION

Dyma ein hargymhellion yn sgil yr ymchwil.

### Eglurder y llywodraeth yn y defnydd o derminoleg.

Mae'r termau, 'Crefydd', 'Gwerthoedd', a 'Moeseg', wedi achosi cryn ddryswch i athrawon, yn enwedig ar gyfer diffiniad 'Gwerthoedd' o fewn y fframwaith hwn. Mae ar athrawon angen arweiniad clir gan Senedd Cymru ar frys i egluro ystyr y termau hyn, yn enwedig y gwahaniaethau cynnil rhwng 'Moeseg' a 'Gwerthoedd'. A yw 'Moeseg' a 'Gwerthoedd' i fod i gael eu trin yn gyfystyr neu a fwriedir iddynt gyfleu ystyron gwahanol o fewn y cwricwlwm CGM? Yn yr un modd, a yw 'Gwerthoedd' o fewn 'CGM' yn gysylltiedig â mathau penodol o werthoedd, yn debyg, efallai, i'r fenter 'British Values' yn Lloegr? Mae eglurder ar ddiffiniad ac ystyr 'Crefydd', 'Gwerthoedd', a 'Moeseg', o ran eu pwrpas, eu harwyddocâd, a'u haliniad ag amcanion addysgol trosfwaol yn hanfodol i sicrhau dealltwriaeth unffurf ar draws sefydliadau addysgol ac i atal anghysondebau yn yr addysg a'r gwerthoedd a gyflwynir gan wahanol ysgolion yng Nghymru.

### Canllawiau'r llywodraeth ar gynnwys.

Er bod athrawon yn gyffredinol yn ymddangos yn obeithiol am y cyfleoedd y mae CGM yn eu darparu ar gyfer integreiddio safbwyntiau athronyddol a moesegol o'r byd i'w cwricwlwm, rydym wedi nodi nad yw llawer yn gallu adnabod a dewis damcaniaethau athronyddol neu foesegol addas i'w hymgorffori yn eu cynlluniau addysgu.

Nid oes gan y llenyddiaeth gyfredol a ddarperir gan Senedd Cymru ganllawiau cynhwysfawr ar yr hyn sy'n gyfystyr â bydolwg athronyddol neu foesegol briodol, gan ei bod yn cynnig enghreifftiau cyfyngedig yn unig, megis heddychiaeth a feganiaeth foesegol. Mae hyn wedi arwain nifer o athrawon ac ysgolion i oedi ac, weithiau, ymatal rhag addasu eu cwricwlwm, a dewis yn lle hynny ddychwelyd i'r cwricwlwm AG yn hytrach nag arallgyfeirio eu cwricwlwm i gynnwys sbectrwm ehangach o fydolygon crefyddol a seciwlar.

Mae angen dybryd am arweiniad cliriach ar y mathau o safbwyntiau athronyddol a moesegol o'r byd y gellid eu hintegreiddio'n ddi-dor i'r cwricwlwm. Mae angen ategu hyn gyda chynlluniau gwaith enghreifftiol a ddosberthir i bob athro CGM sy'n enghreifftiau ymarferol (naill ai i'w gweithredu'n uniongyrchol yn eu haddysgu neu fel ffynonellau ysbrydoliaeth) sy'n dangos ffyrdd effeithiol o ymgorffori safbwyntiau athronyddol a moesegol o'r byd mewn cwricwlwm CGM.

Drwy Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, yr ydym mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r cynlluniau gwaith hyn, ac i'r perwyl hwnnw, gwahoddwn Senedd Cymru i gydweithio â ni.

O ystyried y pryderon hyn, rydym yn argymell yn gryf bod Senedd Cymru yn annog ysgolion uwchradd i beidio â mabwysiadu cwricwlwm Dyniaethau cymysg yng Nghyfnod Allweddol 3. Ateb arall fyddai i SC weithio gyda Chanolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru i

sefydlu cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), gyda rhaglenni sydd wedi'u teilwra i anghenion athrawon anarbenigol sydd â'r dasg o addysgu CGM. Byddai'r rhaglenni hyn yn darparu hyfforddiant ar-lein hygyrch heb unrhyw gost i ysgolion ledled Cymru.

Mae sesiynau DPP ar-lein ar gael ar hyn o bryd i athrawon sydd ag arbenigedd mewn CGM, ond mae'r rhain yn ddrud, ac ar gael yn Saesneg yn unig ac nid yn Gymraeg. Bydd angen i sesiynau DPP gyflwyno amrywiaeth eang o safbwyntiau athronyddol a moesegol o'r byd sy'n addas i'w cynnwys yn y cwricwlwm CGM newydd i athrawon CGM presennol. Maent yn hanfodol i sicrhau bod athrawon yn meddu ar y wybodaeth bynciol angenrheidiol i gyflwyno'r agweddau hyn ar CGM yn ystyrlon ac yn gywir. Gallant helpu i roi hyder i athrawon addysgu'r pynciau hyn a'u cynorthwyo i osgoi camliwio'n gyffredinol safbwyntiau byd-eang amrywiol. Rydym mewn sefyllfa dda i ddarparu cyfleoedd DPP i sicrhau gweithrediad effeithiol CGM mewn ysgolion gan athrawon CGM arbenigol ac anarbenigol CGM fel ei gilydd.

### Dyrannu adnoddau addysgeg CGM.

Mae ein hymchwil yn dwyn sylw at yr heriau sylweddol y mae ysgolion ac athrawon yn eu hwynebu wrth ganfod a chael mynediad at adnoddau addysgegol defnyddiol i'w cynorthwyo i addysgu CGM. Teimlir hyn amlaf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lle mae adnoddau'n brin, o'u cymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n elwa o adnoddau a gyhoeddwyd yn *RE Today* a sesiynau hyfforddi DPP (gyda'r amod mai dim ond aelodau o Gymdeithas Genedlaethol Cymdeithasau Addysgu Cymru sydd yn â mynediad i *RE Today*) sydd yn aml ar gost ariannol bersonol. Mae gan y gwahaniaeth yn yr adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg oblygiadau i ddatblygiad cwricwlwm. Tra bod rhai ysgolion cyfrwng Saesneg wedi llwyddo i arallgyfeirio eu cwricwlwm i gwmpasu bydolygon crefyddol, ysbrydol ac athronyddol nad oedd wedi'u cynnwys yn eu cwricwlwm o'r blaen, mae athrawon cyfrwng Cymraeg yn bennaf yn cynnal cwricwlwm sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm AG blaenorol, trwy ganolbwyntio ar chwe phrif grefydd y byd.

I gwrdd â'r heriau hyn, mae Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru wedi ymrwymo i ddarparu ystod o adnoddau dwyieithog rhad ac am ddim, gan gynnwys cynlluniau gwaith, adnoddau cyfryngau, a chyfleoedd DPP i bob ysgol yng Nghymru. Ond mae'r Ganolfan angen cydweithio â Senedd Cymru i gael mwy o eglurder ar ei gweledigaeth ar gyfer CGM. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adnoddau a gynhyrchir gan y Ganolfan yn cyd-fynd ag amcanion y Senedd.

### Cadw athrawon CGM yng Nghymru.

Mae ein Canolfan wedi derbyn gohebiaeth bryderus gan athrawon CGM/AG sy'n esbonio sut y mae cyflwyno dull y Dyniaethau cymysg yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi achosi iddynt, neu eu cydweithwyr, adael eu hysgolion yng Nghymru i ddod o hyd i swyddi addysgu mewn AG yn Lloegr. Mae'r adroddiadau a'r straeon cyffredin a glywn yn yr achosion hyn yn ymwneud â'u rhwystredigaeth ynghylch gwthio CGM i ymylon cwricwlwm cymysg y Dyniaethau a fabwysiadwyd gan eu hysgolion, a sut y cawsant eu hunain, o ganlyniad, yn gorfod addysgu

Hanes a Daearyddiaeth yn lle hynny—pynciau nad oeddent yn ddigon cymwys i'w haddysgu, ac yn teimlo ychydig iawn o frwdfrydedd drostynt.

Mae'n destun pryder mawr os yw'r enghreifftiau hyn yn adlewyrchu tuedd genedlaethol gynyddol o athrawon CGM yn adleoli i Loegr. Mae'n anochel y byddai hyn yn gwaethygu'r prinder addysgu o safon mewn CGM yng Nghymru. Mae'r pryder yn fwy dybryd wrth ystyried y ffaith bod bwrsarïau o hyd at £10,000 bellach ar gael i'r rhai sy'n dymuno hyfforddi fel athrawon Addysg Grefyddol yn Lloegr, tra nad oes bwrsarïau o'r fath ar gael i athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd mwy o raddedigion o Gymru yn dewis cofrestru ar raglenni TAR yn Lloegr o'r herwydd.

Er efallai na fydd yn bosibl i Senedd Cymru gynnig bwrsarïau cystadleuol ar gyfer TAR CGM/AG er mwyn sicrhau bod yr athrawon dan hyfforddiant o ansawdd da yn cael eu cadw yng Nghymru, gall y Senedd ddechrau lleihau'r effeithiau andwyol ar CGM mewn ysgolion uwchradd drwy ddefnyddio'r hyn a argymhellir gyda'r strategaethau yr ydym yn eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn.

### Canllawiau clir ar gyfer CA4.

Mae ein hymchwil yn datgelu bod nifer sylweddol o ysgolion naill ai wedi dileu neu leihau'n sylweddol ddarpariaeth orfodol Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer CGM/AG. Mae'n anochel y bydd y penderfyniad hwn yn cyflymu'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr yng Nghymru sy'n cofrestru ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol (AC). Rhwystr ychwanegol a fydd yn debygol o gyfrannu at y dirywiad hwn yw'r penderfyniad diweddar i ddileu'r TGAU cwrs byr yn y pwnc o fis Medi 2025 ymlaen. Mae hyn yn golygu na fydd yna bellach gyrsiau achrededig yn y maes pwnc y gellir eu cwblhau gan ysgolion o fewn yr amser a neilltuwyd yn flaenorol i AG/AC Cyfnod Allweddol 4, sef awr yr wythnos. Er bod y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn dileu'r gofyniad cyfreithiol i ysgolion addysgu CGM/AG/AC hyd at 18 oed, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ddiamwys ar ysgolion uwchradd i ddarparu CGM/AG/AC i fyfyrwyr hyd at 16 oed.

Rydym yn annog Senedd Cymru i sicrhau addysg CGM/AG/AS i bob myfyriwr hyd at 16 oed, drwy fynd ati i hyrwyddo ac annog ysgolion uwchradd i wahodd myfyrwyr i ddilyn cyrsiau TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol, a thrwy sicrhau bod Estyn, Arolygiaeth Addysg Cymru, yn ddiwyd yn monitro darpariaeth CGM/AG/AS yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 yn ystod ei harolygiadau. Dylai ysgolion sy'n methu â bodloni gofynion ar gyfer cyflwyno CGM/AG/AS ar draws Cyfnodau Allweddol 3 a 4 wynebu canlyniadau dwys.

### Diwygio'r cynigion presennol i newid TGAU Astudiaethau Crefyddol (AC).

Mae gennym amheuon dwys ynghylch strwythur y cwricwlwm TGAU Astudiaethau Crefyddol presennol, a ddaeth i fodolaeth yn 2017, a natur y newidiadau arfaethedig iddo. Rydym yn annog yn gryf bod yr ystyriaethau canlynol yn cael eu hadolygu cyn newid y cwricwlwm TGAU. Cyn 2017, mabwysiadodd ffurf flaenorol y TGAU Astudiaethau Crefyddol ddull thematig, a roddodd ansawdd deinamig a hyblygrwydd i'w strwythur. Mewn cyferbyniad, mae strwythur y cwricwlwm presennol yn anhyblyg ac yn gwahanu crefydd

oddi wrth athroniaeth a moeseg yn annaturiol. Mae'r cwricwlwm presennol yn cynnwys dwy uned sy'n archwilio credoau ac arferion dwy grefydd, a dwy uned sy'n archwilio dysgeidiaeth athronyddol a moesegol dwy grefydd mewn perthynas â thema benodol. Er bod y cwricwlwm presennol yn annog trylwyredd academaidd trwy feithrin sgiliau dadansoddi ac ysgrifennu estynedig, mae'n methu ag integreiddio'n ddi-dor gredoau ac arferion crefyddol ag ystyriaethau athronyddol a moesol ehangach, a materion cymdeithasol cyfoes y gall myfyrwyr uniaethu â hwy. Efallai nad yw'n syndod bod strwythur anhyblyg a haniaethol y TGAU presennol wedi cyd-daro â gostyngiad nodedig yn nifer y myfyrwyr sy'n sefyll Astudiaethau Crefyddol ar lefel TGAU a Safon Uwch.

Rydym wedi dadansoddi gyda diddordeb y cynigion i adolygu'r TGAU cyfredol mewn Astudiaethau Crefyddol. Roeddem wedi gobeithio y byddai dychwelyd at ddull thematig i annog myfyrwyr i fyfyrio'n ystyrlon ar gredoau crefyddol mewn cysylltiad â materion athronyddol a moesegol tra'n cynnal ei sgiliau academaidd trwyadl. Rydym yn siomedig o weld y cynigion yn ceisio cynnal strwythur anhyblyg y cwricwlwm presennol.

Rydym yn eiriol dros ailenwi'r TGAU yn 'Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg' er mwyn adlewyrchu ei gynnwys yn fwy cywir ac i ddarparu naratif addysgegol cyson ar draws profiad addysgol y myfyriwr, o ystyried mai CGM y bydd myfyrwyr wedi ei adnabod o'r ysgol gynradd hyd at Gyfnod Allweddol 3 erbyn iddynt gyrraedd eu TGAU. Rydym yn annog Senedd Cymru i ailystyried y newidiadau arfaethedig, ac rydym yn awyddus i gydweithio i ddatblygu dull sy'n meithrin ymgysylltiad myfyrwyr ag anghenion addysgol a diddordebau sy'n datblygu'n barhaus garfannau myfyrwyr newydd, tra'n cynnal cywirdeb y pwnc.

### Geiriau olaf: yr angen i edrych ymlaen.

Mae gan gwricwlwm newydd Cymru botensial aruthrol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), gan gynnig hyblygrwydd i athrawon lunio cynlluniau gwaith ystyrlon sy'n ymgyfarwyddo myfyrwyr â chredoau crefyddol, athronyddol a moesol amrywiol yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n gyfle i feithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, herio stereoteipiau, a meithrin meddwl beirniadol a dinasyddion byd-eang gwybodus. Gall CGM, o dan y cwricwlwm newydd, rymuso myfyrwyr i adeiladu sylfeini academaidd cryfion, i ddadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, i ffurfio barn wedi'i seilio ar ddadleuon rhesymegol, a datblygu safbwyntiau gwybodus a mwy gwrthrychol, ac i feithrin ymwybyddiaeth gymdeithasol, parch ac empathi.

Fodd bynnag, mae'r llwybr presennol ar gyfer CGM yn atchweliadol ac yn gwyro'n sylweddol oddi wrth ei botensial. Mae Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru yn awyddus i weithio'n agos gyda Senedd Cymru i dorri ar y llwybr dirywiol hwn sy'n dal i edrych yn ôl, gan sicrhau dyfodol disglair posibl CGM i Gymru. I'r perwyl hwnnw, mae'r Ganolfan yn dadlau o blaid yr angen am ymchwil ac ymchwiliad pellach i'r materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Ar hyn o bryd nid oes digon o ddata ynghylch gweithredu CGM mewn amgylcheddau cynradd ac AAA. Tra bod data wedi'i brosesu gan 43 o athrawon Cyfnod Allweddol 3 ledled Cymru, mae'r Ganolfan yn bwriadu ehangu ei hymchwiliad trwy ei rhwydwaith o ysgolion i

gynnwys mwy o ysgolion uwchradd. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i'r materion sy'n dod i'r amlwg yr ydym wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

# Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru

Dr Gareth Evans-Jones

ncrew@bangor.ac.uk

g.evans-jones@bangor.ac.uk



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Cyd-destun

- Ail-lansiwyd y Ganolfan yn Awst 2023, yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.
- Siaradwyr yn cynnwys: Modlen Lynch, Kristoffer Hughes a Hanan Issa.
- Amcan Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru (CGAGC) yw hybu astudiaeth, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o draddodiadau crefyddol, gwerthoedd a thraddodiadau athronyddol sy'n bodoli yng Nghymru a'r byd ehangach.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf

- **Sesiynau Adolygu Lefel A:** Trefnwyd sesiwn adolygu Lefel A mewnol i fyfyrwyr Ynys Môn a Gwynedd, a sesiynau i fyfyrwyr Sir Gaerfyrddin yng Ngholeg Sir Gâr.
- **Sesiynau Adolygu Ar-lein:** Cynhaliwyd pythefnos o sesiynau adolygu Lefel A ar-lein, gan gwmpasu 24 sesiwn ar Athroniaeth, Moeseg a Bwdhaeth.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf

- **Hyfforddiant DPP:** Darparodd hyfforddiant DPP i athrawon ar addysgu Bwdhaeth a Hindŵaeth.
- **Sesiynau Ar-lein:** Cynhelir sesiynau ar-lein o fis Hydref i fis Ionawr ar gyfer myfyrwyr ac athrawon TGAU a Safon Uwch, gan archwilio perthnasedd Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd yn y gymdeithas gyfoes.
- **Ysgol Haf:** Cynhaliodd ysgol haf ar-lein ym mis Gorffennaf gyda 15 o ddarlithoedd i gyflwyno myfyrwyr i bynciau lefel prifysgol mewn athroniaeth, moeseg, a chrefydd.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf

- **Addysgeg yr Holocost:** Cynnal panel ar addysgeg yr Holocost a threfnu sgwrs ar-lein gan un o oroeswyr yr Holocost ar gyfer ysgolion uwchradd.
- **Sgyrsiau arbennig:** Nerys Siddall (Mary Jones) a Hanan Issa (Bardd Cenedlaethol Cymru).




CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf

- **Adnoddau Addysgiadol:** Heddwch yn ein Haddysg.
- **Blychau Arteffact:** Wedi creu 10 blwch arteffactau crefydd-benodol ar gyfer addysgu prif grefyddau'r byd, sydd ar gael i'w benthyca i ysgolion.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES


COFFÁU'R HOLOCOST MEWN OES DDIGIDOL
Ddydd Iau 25 Ionawr 2024 am 12:00 drwy gyfrwng Zoom
Ymunwch â'r panel trafod yma a drefnwyd gan Ganolfan Addysg Grefyddol Cymru wrth iddynt sgwrsio am y posibiliadau a'r heriau y mae technoleg yn eu cynnig wrth goffáu'r Holocost ac addysgu cenedlaethau newydd.
Siaradwyr:
Dr Matthew Boswell, Dr Joshua Andrews, Ms Rachel Hall, Ms Esther Evans, a Dr Gareth Evans-Jones.
VIRTUAL HOLOCAUST MEMORY
MATTHEW BOSWELL & ANTONY ROWLAND
CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES


MARY JONES
1 Mawrth 2024
am 11:00
dros Zoom
I ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi ac i nodi dechrau Mis Hanes Merched, bydd Nerys Siddall, Rheolwraig Canolfan Byd Mary Jones, yn rhoi sgwrs am fywyd a phwysigrwydd Mary Jones i'n hanes a'n cymdeithas.
Yn 1800, a hithau'n 15 oed, cerddodd Mary Jones 26 milltir i'r Bala i brynu copi o'r Beibl. Cafodd y daith honno ddylanwad pellgyrhaeddol hyd heddiw!
Byd Mary Jones World
CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Digwyddiad am ddim ond bydd angen cofrestru
Cynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg


NOSON YNG NGHWMNI HANAN ISSA
#WHM24
Mis Hanes Merched
Nos Fawrth 12fed o Fawrth 2024
7pm dros Zoom
Ymunwch â ni wrth inni fwynhau noson o drafod gyda Bardd Cenedlaethol Cymru a Chymrawd Anrhydeddus cyfredol Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, Hanan Issa, wrth iddi drafod ei gwaith, ei hysbrydoliaeth, a'i dylanwadau amrywiol; a bydd Hanan yn darllen rhai o'i gweithiau.
Cofrestrwch isod neu drwy sganio'r cod QR
CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Sesiynau adolygu Addysg Grefyddol am ddim
Free A-Level Religious Studies revision sessions
2-4 Ebrill / April
8-11 Ebrill / April
English-medium via Zoom
Cofrestrwch am ddim drwy ddilyn y ddolen sydd gyda'r post hwn.
Register for free via the link provided with this post.
CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES




"Ydym ni'n byw mewn cymdeithas oddefgar?"
CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Bydd Dr Gareth Evans-Jones (un o gyfarwyddwyr Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru) yn holi Siân Melangell Dafydd, Malachy Owain Edwards a Kayley Roberts i ba raddau mae ein cymdeithas yn derbyn amrywiaeth grefyddol, diwylliannol a rhyweddol.
Lle?
Stondin Prifysgol Bangor
Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf
Pryd?
Dydd Mawrth 6 Awst: 14:00-14:45


85% of Bangor's research is world-leading or internationally excellent
Research Excellence Framework


CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES
Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru yn penodi ei Llysgennad Myfyrwyr cyntaf!
NCREW appoints its first Student Ambassador!
Callum Morrissey
(Ysgol Emrys ap Iwan)


Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru
ac Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd, Prifysgol Bangor
The National Centre of Religious Education for Wales
and Philosophy, Ethics and Religion, Bangor University
"Heddwch yn ein Haddysg"
ar Ddiwrnod Rhyngwladol Heddwch
"Teaching Peace"
on International Peace Day
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
21.09.24
CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# MIS HANES POBL DDU
# BLACK HISTORY MONTH

Athronwyr a meddylwyr crefyddol du o bwys.

Significant black philosophers and religious thinkers.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# DELORES S. WILLIAMS (1937-2022)



- Diwinydd arloesol sy'n adnabyddus am ddatblygu diwinyddiaeth fenywaidd, gan ganolbwyntio ar brofiadau menywod Du yn y meddwl Cristnogol.
- Yn ei llyfr, *Sisters in the Wilderness*, mae hi'n ailddehongli naratifau beiblaidd trwy lens fenywaidd.
- Mae Williams yn beirniadu diwinyddiaeth draddodiadol, gan eiriol dros ryddhad a moeseg goroesi fel rhan ganolog o frwydrau ysbrydol a chymdeithasol menywod Du.

CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY




# TEBYGRWYDD

- Cysyniadau allweddol a geir mewn llawer o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol y byd:
  - Rheol Aur: Mae llawer o grefyddau yn dysgu fersiwn o'r Rheol Aur, neu'r egwyddor o drin eraill fel yr hoffai rhywun gael eu trin; e.e., Cristnogaeth ("Gwnewch i eraill fel yr hoffech i eraill ei wneud ichi"), Islam ("Carwch yr hyn yn eich brawd rydych yn ei garu ynoch chi'ch hun"), a Chonffiwsiaeth ("Peidiwch â gwneud i eraill yr hyn nad ydych chi am i eraill ei wneud ichi").
  - Gofalu am y tlodion a'r diamddiffyn: Pwyslais ar elusen, tosturi, a chefnogi'r rhai llai ffodus trwy arferion fel elusen rhodd, tzedakah, zakat, a seva.
  - Straeon maddeuant a straeon ynghylch natur a'r amgylchedd.
  - Gweddi a Myfyrdod.
  - Symbolau goleuni a gobaith: Mae golau yn symbol a rennir mewn amryw systemau ffydd, sy'n cynrychioli gobaith, daioni, neu bresenoldeb dwyfol. Mae Diwali mewn Hindŵaeth, Hanukkah mewn Iddewiaeth, y Nadolig mewn Cristnogaeth, a Vesak mewn Bwdhaeth i gyd yn dathlu gyda symbolaeth golau.

# Prosiect Ymchwil

- **Prosiect Ymchwil:** Ymgymryd â phrosiect ymchwil naw mis ar ddarpariaeth addysgu CGM ledled Cymru.
- Canfuwyd pwyntiau pwysig a rhai agweddau a oedd yn peri pryder.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Prosiect Ymchwil

- Heriau Systematig mewn CGM: Ansicrwydd ynghylch ‘mandadol’.
- Diffyg Cydymffurfiaeth Cyfreithiol?
- Cyfyngiadau Adnoddau: Un gwerslyfr CGM swyddogol sy’n bod – yn y Saesneg, heb unrhyw gyfwerth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw wedi derbyn sêl bendith CBAC na Llywodraeth Cymru.
- Gwahaniaeth o ran Dyrannu Amser.
- Roedd 65% o’r ysgolion yn addysgu CGM fel rhan o gwricwlwm cymysg y Dyniaethau, yn aml gydag amser a sylw anghyfartal o gymharu â phynciau fel Hanes a Daearyddiaeth.
- Hyder Athrawon a Hyfforddiant: Mae diffyg cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol yn rhwystro hyder a chymhwysedd athrawon wrth gyflwyno gwersi RVE effeithiol.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Prosiect Ymchwil

- Heriau Asesu: Mae amwysedd ynghylch dilyniant RVE a dulliau asesu wedi gadael addysgwyr yn chwilio am ganllawiau cliriach a strategaethau trawsgwricwlaidd.
- Effeithiau Cadarnhaol CGM: Er gwaethaf heriau, mae rhai ysgolion yn adrodd bod trosglwyddo o AG i CGM wedi gwella diwylliant myfyrwyr ac amgylcheddau addysgu.
- Materion Staffio: Nid oes gan lawer o ysgolion arbenigwyr CGM, ac yn aml mae'n ofynnol i athrawon addysgu pynciau lluosog, gan effeithio ar gysondeb ac ansawdd cyflwyno CGM.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Prosiectau a Chyfleoedd cyfredol

- Cydweithio â CYSAG Conwy ac Abertawe i ddarparu sesiynau fin nos ar wahanol agweddau ar CGM.
- Ymateb i geisiadau gan yr ymgynghorwyr CGM / athrawon.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Prosiectau a Chyfleoedd cyfredol

- Mentoriaeth Athrawon: Fis Chwefror 2025, byddem yn lansio rhaglen fentora am ddim i athrawon fydd yn gorfod addysgu Astudiaethau Crefyddol ar gyfer lefel TGAU ond nad ydynt wedi eu hyffroddi mewn AC/AG/CGM.
- Cynllun 15 mis o gefnogaeth, sesiynau arbenigol a chefnogol.
- Dyddiad cau cyflwyno cais: Ebrill 2025.
- Dechrau'r cynllun: Medi 2025.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Prosiectau a Chyfleoedd cyfredol

- Sesiynau Adolygu Safon Uwch a Safon Uwch-Gyfrannol yn ystod y Pasg.
- Meysydd: Bwdhaeth, Athroniaeth, Moeseg a Christnogaeth.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Ymchwil CGM

- Parhau gyda'r ymchwil a ddechreuodd yn 2023 ac a gyhoeddwyd fel adroddiad fis Ebrill 2024.
- Ail gam: cyfweliadau gydag athrawon cwbl anhysbys.
- Bwydo'n ôl i'r Llywodraeth.



CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Cysylltwch ar bob cyfri

- I ymweld ag ysgolion / darparu sesiynau adolygu / hyfforddiant.
- Rhannu adnoddau.
- Cyfeirio at fudiadau / fannau perthnasol.



CANOLFAN GENEDLAETHOL
ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF
RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Cysylltwch ar bob cyfri

- E-bost: ncrew@bangor.ac.uk
- Dr Gareth Evans-Jones: g.evans-jones@bangor.ac.uk
- Instagram: @ncrewales
- LinkedIn: Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru
- Gwefan CGAGC – ar wefan Prifysgol Bangor.

CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

CANOLFAN GENEDLAETHOL
ADDYSG GREFYDDOL CYMRU
NATIONAL CENTRE OF
RELIGIOUS EDUCATION FOR WALES

# Diolch am wrando!